# Welsh Arts Anti-Racist Union

## Cam 3 – Adroddiad Terfynol

Tendr Ehangu Mynediad ar gyfer Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru

Gwaith gan Welsh Arts Anti-Racist Union

**Nodyn am gyfieithu i'r Gymraeg:** gwnaed pob ymdrech i ganfod a defnyddio termau y mae eu hystyr yn cyfateb yn union i'r termau a ddefnyddiwyd yn Saesneg. Defnyddir termau safonol ble bynnag y bo modd a lle na fu modd canfod term Cymraeg cyfatebol, defnyddiwyd disgresiwn y cyfieithydd i gadw'r term Saesneg mewn cromfachau, er eglurder i'r darllennydd. Rydym yn ymwybodol bod angen gwaith pellach yn y maes hwn ac yn cyfrannu at drafodaethau ble bynnag y bo modd er mwyn sicrhau cronfa ganolog o dermau cydnabyddedig a gymeradwyir gan ddefnyddwyr.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Amlinelliad o’r Adroddiad | 3 |
| 2. Crynodeb o’n Bwriadau | 5 |
| 3. Crynodeb o Gam 1 | 6 |
| 4. Crynodeb o Gam 2 | 8 |
| 5. Tueddiadau a Ganfuwyd wrth Ymgynghori | 12 |
| 6. Ein Rhestr o Alwadau | 26 |

# 1. Amlinelliad o'r Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau manwl dadansoddiad dwys gan y Welsh Arts Anti-Racist Union (WAARU) o berthynas Cyngor Celfyddydau Cymru (y Cyngor) ac Amgueddfa Cymru (yr Amgueddfa) â phobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu[1] yng Nghymru. Yn unol â'n cynigion ym mis Gorffennaf 2020, ein hamcanion oedd ymchwilio sut mae'r ddau sefydliad yn gweld eu perthynas â chymunedau amrywiol yng Nghymru (nawr ac yn y gorffennol) trwy eu strategaethau ymgysylltu, polisïau, nawdd a ddyranwyd, arddangosfeydd a datblygiadau. Yna, yn ystod yr ail gam, edrychwyd yn fanylach ar sut mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn gweld y Cyngor a'r Amgueddfa trwy gyfnod ymgynghori trylwyr ac ansoddol. Roeddem am ddeall beth oedd y berthynas hon yn ei datgelu am – yng ngeiriau'r ddau gorff – y diffyg ymgysylltu gan gymunedau amrywiol.

Pam nad oes gan ein cymunedau ddiddordeb yn sector y Celfyddydau a Threftadaeth a pham nad ydyn nhw'n cymryd rhan? Dyma gwestiwn a glywn ni'n aml. Er ein bod ni'n gyfarwydd â'r atebion, mae'n ymddangos nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru nac Amgueddfa Cymru fyth yn ddigon bodlon â nhw i gymryd camau cadarn yn sgil pob adroddiad gwerthuso, sgwrs agored a darn o dystiolaeth o anghydraddoldeb yn y sector. Fel y dengys ein canfyddiadau, nid diffyg ymdrech nac ymgais gan bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yw'r rheswm dros ddiffyg presenoldeb a diffyg cynrychiolaeth o fewn y sefydliadau hyn, boed hynny fel cynulleidfaoedd, ymarferwyr neu weithwyr. Yn hytrach, ymdrech strwythurol ar y cyd sydd i'w weld yn glir yn agweddau ac ymddygiad y rheini mewn grym sy'n galluogi, yn cynnal, yn cyfrannu at ac, yn aml iawn yn achos uniongyrchol, dros allgau parhaus y bobl hyn.

Daethpwyd i'r casgliad hwn droeon yn ystod ein hymchwiliad, a gafodd ei rannu yn dri cham.

Cam 1: casglu a dadansoddi adroddiadau, strategaethau, polisïau, data ac ystadegau Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru er mwyn deall yn well beth a wnaed cyn nawr i fynd i'r afael â diffyg amrywiaeth o fewn sectorau'r Celfyddydau a Threftadaeth. Hefyd, ac mae hyn yn allweddol, roeddem ni am edrych yn fanylach ar ba grwpiau a lleisiau yr ymgysylltwyd â nhw, ac a oedd eisoes yn bresennol, a pha grwpiau a lleisiau oedd ar goll.

---

[1] *Nodyn ar ddefnydd o'r term 'pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu':* nid oes un term y mae pawb yn gysurus i'w ddefnyddio na'i weld. At ddibenion gwaith WAARU ar y tendr Ehangu Ymgysylltiad rydym yn defnyddio'r term 'pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu' am ein bod, ar ddechrau'r tendr, yn teimlo ei fod yn briodol. Fodd bynnag, *nid argymhelliad i'r Amgueddfa a'r Cyngor ddefnyddio'r term yw hwn.* Fel mater o arfer orau, mae WAARU yn ceisio cydnabod, gwerthfawrogi ac anrhydeddu hawl unigolyn i bersonoldeb a hunan-uniaethu. Mae'r term 'pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu' yn cyfeirio at bobl sydd â threftadaeth Affricanaidd, y Caribî, De Asia, Dwyrain Asia, y Dwyrain Canol, Latinx, Brodorol/cynhenid, Ynysoedd y Môr Tawel neu dreftadaeth luosog.

Daethpwyd i'r casgliad y rhoddwyd pwyslais gormodol ar ymgysylltu â grwpiau oedd ddim yn cymryd rhan yn sectorau'r Celfyddydau a Threftadaeth heb ystyriaeth ddigonol i les, cynnydd a safbwyntiau pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu oedd eisoes yn gweithio yn y diwydiannau hyn, yn rhan ohonynt neu â diddordeb mewn bod yn rhan ohonynt. Roedd hyn yn gorgyffwrdd â'n bwriad i siarad ag ymarferwyr amrywiol sydd, fel y gwyddom o brofiad, yn hanfodol er mwyn datblygu cynulleidfaoedd amrywiol (fel y nodwyd yn ein cynnig a'n cynllun cychwynnol ar gyfer y tendr).

Cam 2: fel y nodir yn fanwl nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, roedd y cam hwn yn canolbwyntio ar siarad â'r cymunedau Du a chymunedau croenliw nad ydynt yn Ddu oedd ar goll yn ein tyb ni, gan gynnwys gweithwyr celf, ymarferwyr, cyrff celfyddydol bach ac aelodau cymunedau ar draws sectorau'r celfyddydau a threftadaeth. Yn ein profiad ni, o ystyried nifer yr ymgynghoriadau blaenorol oedd yn canolbwyntio'n drwm ar y rheini nad oeddent wedi ymgysylltu â'r celfyddydau, roedd yn bwysig bod Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru hefyd yn deall yr heriau a'r niwed y gallant ei beri i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu oedd eisoes yn bodoli o fewn eu sefydliadau neu yn ceisio dod yn rhan ohonynt. Rydyn ni'n credu ei fod yn esgeulus ac o bosibl yn niweidiol i geisio ehangu mynediad i gynulleidfa sydd heb ei chyrraedd cyn deall y diffyg tegwch a diogelwch ar gyfer y rheini sydd eisoes yn y sector.

Er mwyn gwneud hyn, cynhaliwyd ymgynghoriadau dwys, 1 i 1 gan greu amgylchedd diogel i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu gael rhannu eu profiadau o sectorau'r Celfyddydau a Threftadaeth a mynegi eu perthynas â nhw. Rhoddodd hyn gip i ni ar eu safbwyntiau nhw, yn aelodau cynulleidfaoedd, ymarferwyr ac artistiaid, am eu diffyg presenoldeb drwy Gymru.

Cam 3: yn ystod y cam olaf, tynnwyd ein gwaith ymchwil a sgyrsiau gan gynnwys dau sesiwn grŵp gyda chyfranwyr at ei gilydd. Gwahoddwyd cyfranwyr yn ôl i weithio gyda WAARU i gyd-greu ein rhestr derfynol o alwadau ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru. Yn ogystal â'r rhestr o alwadau, sydd yn mynd tu hwnt i argymhellion trwy alw am atebolrwydd yn rhan o'r gweithredu, mae cam 3 yn adolygu'r fethodoleg ddyfeisgar, nad yw'n alldynnol (*extractive*) a ddefnyddiwyd drwy gydol y tendr.

Yng ngham 1 mae WAARU yn cyflwyno adolygiad llenyddiaeth [atodiad a] o ganfyddiadau blaenorol a gomisiynwyd gan y Cyngor a'r Amgueddfa. Ychydig iawn o newidiadau ystyrlon neu angenrheidiol a fu yn eu sgil o ran sicrhau tegwch i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn y celfyddydau. Mae cam 2 yn rhoi dealltwriaeth drylwyr, di-flewyn-ar-dafod o'r rhwystrau mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn eu hwynebu o fewn sector y Celfyddydau a Threftadaeth. Dim ond trwy ddefnyddio'r model werthuso nad yw'n alldynnol – dull anghyfarwydd i'r Cyngor a'r Amgueddfa – yr oedd modd casglu'r math hwn o wybodaeth. Ond mae cam 3 yn mynd tu hwnt i hyn a thuag at y canfyddiadau brys sy'n rhaid eu gweithredu er mwyn ateb y cwestiynau a ofynnir gan y tendr Ehangu Mynediad. Fel y nodwyd yn ein cynnig,

canfod atebion yw sail y gwaith hwn. Mae'n ymgais i sicrhau na fydd angen ailadrodd prosesau ymgynghori llafurus a thrawmatig y gellid eu hosgoi eto. Mae'n symud ymlaen, tuag at oblygiadau, tegwch a newid. Yn yr ysbryd hwn, dyma gyflwyno canlyniadau ein hymchwiliadau.

# 2.Crynodeb o'n bwriadau

Grŵp o artistiaid a gweithwyr celf croenliw yw'r Wales Arts Anti-Racist Union (WAARU). Fe ymgeision ni am y tendr ymgysylltu gyda'r nod o wneud pethau mewn ffordd wahanol, gan fod yn ymwybodol o natur docynistaidd, alldynnol ymgynghoriadau â'n cymunedau ni yn y gorffennol a'r ddrwgdybiaeth y mae hyn yn ei chreu (ac ail-greu) pan mae projectau ymgynghori yn methu â chreu canlyniadau pendant dro ar ôl tro. Rhoddodd ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020, yr anghydraddoldeb a amlygwyd eto fyth gan bandemig Covid-19 a'r datganiadau o gefnogaeth a ddaeth yn eu sgil gan y Cyngor a'r Amgueddfa yn ogystal â chyrff celfyddydol eraill yng Nghymru, obaith newydd a brys i'r newidiadau eang sy'n rhaid eu gwneud er mwyn sicrhau sector deg i bawb. Gyda hyn mewn cof, mae'r tendr yn ceisio osgoi ailadrodd llafur a thrawma prosesau ymgynghori. Ein bwriad oedd llunio adroddiad project a rhestr o alwadau – yn seiliedig ar ymgynghoriadau manwl ag artistiaid, gweithwyr celf a chynulleidfaoedd gan ddefnyddio methodoleg gofal – fyddai'n mynd at wraidd y camau gweithredu sy'n rhaid eu cymryd er mwyn taclo'r rhwystrau y mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn eu hwynebu wrth geisio cael at y celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru, ac yn eu tro, wrth iddynt geisio ymgysylltu a'r Cyngor a'r Amgueddfa.

Drwy gydol y project, roeddem ni'n ceisio peidio atgynhyrchu'r ymgynghoriadau niweidiol ac ailadroddus yr oedd pobl eisoes wedi blino arnynt, gan droi yn hytrach at atebion radical y gellid eu gweithredu er mwyn creu newid systemig. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cam 1 a cham 2, crëwyd rhestr o'n galwadau y gellid eu rhoi i'r ddau gorff, gan gynnwys y camau gweithredu angenrheidiol, er mwyn rhoi newidiadau strwythurol a pharhaus ar waith i greu amgylchedd lle y gall ein cymunedau ni ffynnu. Bydd ein project ymgynghori yn rhoi gwybodaeth i'r ddau gorff er mwyn iddyn nhw ddeall yn glir beth maen nhw'n ei wneud yn gywir, beth sydd angen ei wella neu ei ddatgymalu a sut y gellid gwneud hyn. I ni, dechrau adeiladu rhwydwaith ydym, yn hytrach na chynnal sgwrs alldynnol untro heb gysylltiad pellach wedi hynny. Byddwn ni'n galw ar y ddau gorff i ddod yn ôl at y grŵp fel ymgynghorwyr arbenigol wrth i'r broses ddatblygu a byddwn ni'n dilyn cynnydd yr effaith a ddaw yn sgil y galwadau hyn gan obeithio parhau i weithio gyda'r Cyngor a'r Amgueddfa i sicrhau eu bod wedi deall y galwadau a'u rhoi ar waith.

I grynhoi, ein hamcanion ar gyfer y project hwn oedd:

- Yn ystod cam 1, dadansoddi data, adroddiadau ac ystadegau a ddarparwyd gan y Cyngor a'r Amgueddfa er mwyn canfod y lleisiau 'coll' o waith tebyg i'r tendr hwn a wnaed eisoes ac i weld sut mae hunaniaeth y bobl hyn yn croestorri.

- Yn ystod cam 2, siarad ag ystod o artistiaid, gweithwyr celf a chynulleidfaoedd i ddeall eu profiadau a'u safbwyntiau.

- Cadw croestoriadedd a gofal wrth wraidd ein methodoleg, creu mannau diogel ar gyfer deialog agored a rhannu â'n cyfranwyr, a chymryd gofal am les pobl wrth ymgynghori.

- Yn ystod cam 3, creu rhestr ymarferol a phendant o alwadau ar sail canfyddiadau gwaith ymgynghori cam 2 a gwaith dadansoddi adroddiadau a data cam 1.

- Cadw mewn cysylltiad â'n cyfranwyr gan roi'r diweddaraf iddynt am y broses dendro er mwyn sicrhau perthnasau a rhwydweithiau sy'n para.

- Tu hwnt i'r tendr, rydym yn dymuno parhau â'r sgwrs gyda'r Cyngor a'r Amgueddfa, gan ddilyn cynnydd ein rhestr o alwadau a pharhau â'n gwaith o greu sector celfyddydau a threftadaeth deg yng Nghymru.

# 3.Crynodeb o Gam 1

### Amcanion y Dadansoddi

Fel y nodwyd yn fanylach yn adroddiad cam 1, diben cam 1 oedd astudio ystadegau, adroddiadau amrywiaeth a phroject, canlyniadau, holiaduron, gwerthusiadau a gwybodaeth arall a fyddai'n creu darlun clir o sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, a'u cyrff portffolio a safleoedd ar draws Cymru, yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol, a'r rheini o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn benodol. A ninnau'n gydweithfa o fenywod a gweithwyr datblygu cymunedol croenliw, roedd ein bywydau proffesiynol a'n profiadau bywyd yn sail i'r tendr a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd gwneud gwaith ymchwil dwys er mwyn deall a datod y rhesymau sydd wrth wraidd anghydraddoldeb yn sector y celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru.

I'r perwyl hwn, yn hytrach na brysio'n syth at ymgynghori neu gyfweld â phobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu am eu profiadau, penderfynwyd – fel aelodau cynulleidfaoedd ac ymarferwyr celfyddydol – y byddai'n well gwerthuso a dadansoddi'r strategaethau a ddefnyddiwyd eisoes gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru. Rhoddodd hyn

ddarlun cliriach i ni o sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yn gweld eu perthynas â phobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu; y graddau y maent yn ymgysylltu â'r cymunedau hynny; pwy sydd ar goll o'u strategaethau ymgysylltu a pham.

### Canfyddiadau'r Dadansoddi

Daethpwyd i'r casgliad fod y gwerthusiadau ymgysylltu hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ofyn i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu am y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth fynychu mannau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth. Er ein bod yn deall ei fod yn bwysig deall y cyd-destun ehangach dros allgau pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu o'r celfyddydau, mae'n rhwystredig mai dyma'r unig gwestiwn a ofynnir i'n cymunedau yn amlach na pheidio – er ei fod yn cael ei ofyn mewn llawer o ffyrdd gwahanol – a dyma'r unig sail i ymgais Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddeall eu profiadau. Roedd hyn yn wir am bob un ddogfen a welwyd, mor bell yn ôl ag Ymgynghoriad a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu Cyhoeddus Amgueddfa Cymru yn 2012.

Mae deinameg pŵer yr ymgynghoriadau hyn yn cymryd fod gan sefydliadau dan arweiniad pobl wyn yr atebion a'r gallu i gael gwared ar y rhwystrau hyn. Mae gofyn i unigolyn pa rwystrau mae'n ei hwynebu wrth geisio cael at ddiwydiant sydd dan oruchwyliaeth arweinyddiaeth nad yw'n gynrychioladol – lle bwriedir i'r budd fod i'r grwpiau a naratifau dominyddol – yn awgrymu mai gan y sefydliadau gwyn, anghynrychioladol hyn mae'r 'atebion' am mai ganddyn nhw mae'r 'pŵer'. O'n safbwynt ni, nid oes gan Gyngor Celfyddydau Cymru nac Amgueddfa Cymru, sydd ill dau yn gyrff dan arweiniad pobl wyn, y gallu i roi atebion ar waith sy'n ddigon creadigol ac arloesol i fynd i'r afael ag allgau parhaus pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym ni'n gweld yr un peth. Mae'r newidiadau mor bitw, ac mewn gwirionedd yn gymharol elfennol, fel nad ydynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth i symudedd ariannol na chymdeithasol cymunedau Du a chymunedau croenliw nad ydynt yn Ddu.

### Goblygiadau ar gyfer Cam 2

Mae Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi casglu mwy na digon o wybodaeth gan bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu o fewn y dogfennau a adolygwyd i ddeall y rhwystrau sy'n eu hwynebu fel cynulleidfaoedd ac ymarferwyr celfyddydol, ond ychydig iawn neu ddim sylw o gwbl a roddwyd i gynnig atebion.

Mae deinameg pŵer yr 'ymgynghoriadau' hyn, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn gyfangwbl o blaid sefydliadau mawr, dan arweiniad pobl wyn – gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru – sy'n manteisio yn gwbl ymwybodol ar allgau cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae'r 'adroddiadau amrywiaeth' hyn yn sail i Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ymddangos eu bod yn cael eu cymell yn gymdeithasol ac yn foesol i fynd i'r afael ag allgau pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu, ond heb orfod rhoi canlyniadau na newidiadau mawr ar

waith. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn parhau i gael budd ariannol trwy alw am ragor o nawdd gwytnwch a blynyddoedd o gontractau a rolau cyflogedig i bobl sydd heb brofiadau bywyd gael gwneud 'rhagor o waith ymgynghori'.

Wedi gwerthuso strategaethau ymgysylltu Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yn drylwyr, rydym wedi dod i'r casgliad nad anwybodaeth fwriadol yw'r rheswm dros allgau ac anwybyddu parhaus pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu. Mae'n digwydd oherwydd patrwm bwriadus ac ailadroddus a diffyg atebolrwydd, a hynny am nad oes unrhyw gymhelliant i fod yn atebol. Mae'n ofid fod strwythur y ddau sefydliad, mewn llawer o ffyrdd, yn cymell osgoi atebolrwydd am fod gwir degwch i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn golygu datgymalu strwythurau ehangach, fel y bwlch cyflog nodedig o fawr, llywodraethiant a deinameg pŵer fertigol.

Roedd darllen y dogfennau hyn yn ein digalonni am eu bod yn dangos yn glir fod yr Amgueddfa a'r Cyngor wedi camddefnyddio'r pŵer a roddwyd iddynt er mwyn rhoi gormod o adnoddau i artistiaid gwyn a dosbarth canol (sydd eisoes yn freintiedig) tra'n methu â rhoi adnoddau digonol i artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu. Mae hefyd yn amlwg bod y ddau gorff eisoes wedi derbyn cymorth a chyngor helaeth (ar ffurf ymgynghoriadau cymunedol a hyfforddiant amrywiaeth) i gywiro'r diffyg cydraddoldeb ond eu bod wedi methu yn hynny o beth. Yn yr ystyr hwn, mae'n amlwg fod yr Amgueddfa a'r Cyngor yn gyson anwybyddu ceisiadau cymunedau Du a chymunedau croenliw nad ydynt yn Ddu, gan ffafrio newidiadau llai sy'n fwy 'cysurus', nad ydynt yn eu gorfodi i ailstrwythuro'u sefydliadau ac ystyried newidiadau i'w cyflogau, swyddi neu'r ffordd y dyrannir adnoddau, er enghraifft.

Mae patrwm i'r ymddygiad hwn: 1) cydnabod yn amwys fod problem 2) cyflogi cwmni ymgynghori / cymryd rhan mewn hyfforddiant amrywiaeth 3) anwybyddu cyngor 4) datblygu enw am siarad yn gyhoeddus am newid 5) defnyddio hyn i ddadlau dros barhau i gael contract/cyflog.

Gan symud ymlaen i gam 2, roedden ni'n benderfynol o gyrraedd y bobl hynny a gafodd eu cadw allan neu eu hanwybyddu yn ystod gwerthusiadau blaenorol, ond hefyd o sicrhau na fyddai ein proses ymgynghori yn ailadrodd prosesau blaenorol. Llywiodd cam 1 ein methodoleg o fod yn seiliedig ar dryloywder, bwriad, gofal a gweithred.

# 4.Crynodeb o Gam 2

Gan fod adroddiad cam 2 wedi cael ei gyflwyno cyn ei orffen, bydd y crynodeb hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y broses a'r dysgu.

## Meini prawf ymgynghori

Fel y nodwyd eisoes yn adroddiad cam 2 ac yn ein cais, cyfweliad a chyfarfodydd pellach, mae ein cymhelliant ar gyfer y meini prawf ymgynghori yn deillio o gam 1. Yn ystod cam 1, sefydlwyd pa leisiau oedd ar goll neu wedi'u hepgor o'r ymdrechion gwerthuso blaenorol, a pha leisiau fyddai'n rhaid eu clywed er mwyn sicrhau newidiadau hirdymor, cynaliadwy o fewn Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Ein prif faen prawf oedd pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy'n artistiaid neu'n weithwyr celf (gan gynnwys staff a chyn-aelodau o staff amgueddfa a Chyngor Celfyddydau Cymru). Ein hail faen prawf oedd y rheini sy'n ystyried eu bod ar gyrion y sector celfyddydau/treftadaeth gan gynnwys 'y rheini sy'n frwd dros gelf ac amgueddfeydd'. Roedd gennym ddiddordeb penodol mewn croestoriadedd profiadau a hunaniaeth gan gynnwys pobl sydd yn anabl, niwrowahanol, ag incwm isel neu o gefndir dosbarth gweithiol, ceiswyr lloches/ffoaduriaid, pobl ifanc, 50+, artistiaid neu ymarferwyr newydd neu sydd wedi ennill eu plwy, grwpiau cymunedol a chydweithfeydd celfyddydol bach. Roedd hyn yn bwysig i ni am i ni fethu â chanfod unrhyw dystiolaeth y rhoddwyd sylw digonol i groestoriadedd mewn unrhyw werthusiad blaenorol gan y Cyngor na'r Amgueddfa, fel y nodwyd yn gryno yn adroddiad cam 1. Meysydd eraill o ddiddordeb i ni, er yn anoddach i'w pennu y tu hwnt i dystiolaeth anecdotaidd neu bersonol, oedd y profiadau o'i chael hi'n anodd torri drwodd i'r sector celfyddydau/treftadaeth a theimlad o fod wedi colli eu hunig gyfle.

Dylid nodi ei fod, ar ddiwedd y cam, yn anodd pennu'r rheini 'nad oeddent yn ymgysylltu â'r celfyddydau/treftadaeth' yn ystod y broses ddethol gan fod yr holl ymatebwyr posibl yn ystyried eu hunain yn rhanddeiliaid yn y sector celf a threftadaeth mewn rhyw ffordd, a'u blaenoriaeth oedd cyfrannu at yr ymgynghoriad yn y gobaith o greu amgylchedd saffach i bawb yn y celfyddydau neu ar gyrion y celfyddydau, yn hytrach na chyfrannu er mwyn gwella strategaethau ymgysylltu'r Cyngor a'r Amgueddfa cyn i waith sylfaenol i atal niwed gael ei gwblhau. Yn ogystal, roedd yn destun pryder i WAARU fod y Cyngor a'r Amgueddfa wedi honni mewn cyfarfod tendr ar ddydd Gwener 27 Tachwedd mai pobl 'oedd ddim yn ymgysylltu â'r celfyddydau/treftadaeth) oedd prif gynulleidfa'r tendr (yn wahanol i'r cynulleidfaoedd hynny y cytunwyd arnynt yn ein cynnig tendr). Roedd hyn yn destun pryder arbennig am ein bod ar fin gorffen cam 2 bryd hynny.

## Proses ymgynghori

Dechreuwyd ymgynghori'n hwyrach na'r bwriad am ein bod yn canolbwyntio ar ddylunio proses oedd yn ymateb i ganfyddiadau cam 1 sef datblygu'r cwestiynau oedd heb eu gofyn hyd yn hyn, yn ogystal ag ystyried grym gweithredu (*agency*) ein cyfranwyr. Y nod oedd dylunio proses hirdymor oedd ddim yn alldynnol. Roeddem am ddatblygu model fyddai'n meithrin perthynas

ystyrlon, diogel, seiliedig ar ymddiried; sy'n trin ymatebwyr fel arbenigwyr gwerthfawr, waeth beth yw lefel eu dealltwriaeth neu agosatrwydd eu perthynas â'r celfyddydau a threftadaeth; ac sy'n parhau i ymgysylltu â nhw wedi'r project. Roeddem am sicrhau fod ein cwestiynau ymgynghori yn adlewyrchu hyn, gan eu defnyddio i greu ac arwain sgwrs fwy organig am rannu profiadau a meddyliau er mwyn sicrhau newid go iawn. O'r herwydd, cymerwyd wythnos ychwanegol cyn cychwyn yr ymgynghori ond ni chafwyd effaith sylweddol ar yr amserlen.

Cafodd cyfranwyr eu canfod trwy rwydweithiau proffesiynol ac eilaidd gan ymestyn tu hwnt i'r sector celfyddydau a threftadaeth er mwyn sicrhau y cyrhaeddwyd cynulleidfaoedd 'sydd ddim yn ymgysylltu â'r celfyddydau/treftadaeth'. Gwahoddwyd 63 o bobl a oedd yn cynrychioli pob profiad a chroestoriad a nodwyd gennym yn ein meini prawf mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ymatebodd 22 o bobl, ac fe ymgynghorwyd â nhw yn unol â'n hamcangyfrif, amserlen a chyllideb ar gyfer cam 2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf ar 10 Tachwedd, a'r olaf ar 4 Rhagfyr, y cyfan wedi'u cynnal o bell gan ddefnyddio Zoom.

## Methodoleg ymgynghori

Roedd ein dull o gyfathrebu ac estyn allan at gyfranwyr posibl yn bwysig i ni, am ein bod yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd o'r diffyg ymddiried yn y sector parthed ymgynghoriadau ar raddfa fawr yn y celfyddydau (a gadarnhawyd yn ddiweddarach gan lawer o gyfrannwyr yn ystod ein sesiynau). O'r herwydd, rhaid oedd cynnal proses fframio tryloyw, anffurfiol heb ddisgwyliad o ganlyniad. Anfonwyd dogfen friffio [atodiad B] sy'n adlewyrchu hyn, gan gyfeirio at yr ymgynghoriad fel sgwrs a chan gynnig ffi ymgynghori sylweddol i danlinellu gwerth anhepgor eu lleisiau yn y math hwn o werthusiad ar y raddfa hon. Defnyddiwyd sgyrsiau e-bost unigol er mwyn cadarnhau dyddiad ac amser y sesiynau ymgynghori, ac er eu bod wedi cymryd amser, roeddent yn gam angenrheidiol wrth sicrhau nad oedd ein hymgynghoriadau yn teimlo fel proses 'dienw' o'r cychwyn, ac nad oedd pobl yn cael eu 'gosod' mewn proses fiwrocrataidd o ymgynghori dro ar ôl tro.

Roedd dau aelod o WAARU yn bresennol ym mhob ymgynghoriad, gydag un yn arwain y sgwrs a'r llall yn cadw nodiadau ac yn ymuno o bryd i'w gilydd. Rhoddwyd esboniad cryno o'r tendr a thrywydd disgwyliedig y sgwrs ar ddechrau pob cyfarfod Zoom, yn ogystal â gwybodaeth ddiogelu a phreifatrwydd gryno. Dechreuwyd pob sgwrs gan ofyn i bobl gyflwyno eu hunain (yn eu geiriau eu hunain a chan ddewis ba wybodaeth roedden nhw am ei datgelu) yn hytrach na rhoi opsiynau neu flychau i'w ticio, am fod hyn yn ein helpu i ddeall yn well a oedd ganddynt hunaniaeth croestoriadol heb fod yn ymwthiol. Nid oedd yr ymgynghorydd yn promptio'r cyfrannwr os nad oedd wedi son am hunaniaeth ymylol; yn aml iawn roedd yn codi'n naturiol yn ystod y sgwrs. Byddai'r sgwrs yn parhau gyda chwestiwn agored yn gofyn am daith yr unigolyn i'r sector celfyddydau a/neu dreftadaeth ac yna'n llifo'n naturiol a/neu yn dilyn y cwestiynau a baratowyd gennym i helpu i lywio'r sesiwn.

Roedd yr holl gwestiynau a baratowyd gennym [atodiad C] yn agored, ac wedi'u categoreiddio fesul pwnc (cynrychiolaeth, ymrwymiadau, atebolrwydd, nawdd, profiadau fel cynulleidfa, profiadau fel gweithiwr celf ac yn y blaen). Roedd y sawl oedd yn arwain yr ymgynghoriad yn ymateb yn ystod y sgwrs ac yn dewis pa gwestiynau i'w gofyn gan ddibynnu ar eu perthnasedd a'r hyn oedd ar ôl i'w drafod. Dyluniwyd y cwestiynau i'w defnyddio fel hyn, gan roi lle i gyfranwyr ymateb mewn dull mwy rhydd – bron fel pe baent yn adrodd stori am eu perthynas â'r sectorau celfyddydol a threftadaeth yn hytrach na disgrifio'u profiadau. Er mwyn casglu gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio'r broses hon, felly, rhaid oedd sicrhau y câi'r profiadau eu dal yn agosach ac â mwy o ofal. Nid oedd modd 'neidio ymlaen' i'r argymhellion, fel petai. Dyluniwyd ein methodoleg er mwyn sicrhau mai dechreuad ar y broses o newid oedd y gwerthuso, yn hytrach na chanlyniad darn blaenorol o waith.

Cysylltwyd â phob cyfrannwr dros e-bost wedi'r cyfarfod, a gwahoddwyd y rheini oedd a diddordeb mewn trafod syniadau a strategaethau er newid yn fanylach i un o ddau sesiwn ychwanegol yn ystod cam 3. Sesiynau grŵp, â thâl oedd y sesiynau hyn, oedd yn rhoi cyfle i gwrdd a rhannu syniadau fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol i'r rhestr o alwadau ar gyfer sector y celfyddydau a threftdaeth.

## Casgliadau am Fanteision Modelau Ymgynghori Nad ydynt yn Alldynnol

Daeth yn amlwg wrth i ni ymgynghori fod pobl groenliw i raddau helaeth yn anghysurus â chymryd rhan mewn ymgynghoriadau ynghylch ymgysylltu. Achosir yr ymateb hwn am y disgwylir y bydd tocynistiaeth ac ecsploetio profiadau, a disgwylir hefyd na fydd gweithredu yn digwydd wedi'r ymgynghori gan y sefydliad dan sylw. Hefyd, nid yw llawer o'r bobl y siaradon ni â nhw yn ystyried eu hunain yn ymgynghorwyr proffesiynol, er mai trwy waith ymgynghori yn unig y ceir rhai cyfleoedd am nawdd a thaliad yn sector y celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru. Mae rhwystredigaeth ac amheuaeth ynghylch y modelau gwerthuso cyfredol.

Mynegodd llawer o'r rheini gafodd wahoddiad i gymryd rhan bryder ynghylch natur alldynnol ymgynghoriadau, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'r Amgueddfa – a dyma'r rheswm a gafwyd gan rai dros wrthod y gwahoddiad. Cafodd y pryderon hyn eu mynegi gan bobl sydd wedi bod yn gweithio/ymarfer yn sector y celfyddydau a threftadaeth am 10 a mwy o flynyddoedd, ond cafodd y safbwynt hwn ei fynegi i'r un graddau gan bobl sydd wedi bod yn gweithio yn y sector am lai na 5 mlynedd hefyd. Mae'r pryderon hyn yn cadarnhau'r angen i fabwysiadu modelau newydd nad ydynt yn alldynnol – fel ein model ni – fel y 'norm' newydd, nid yn unig er mwyn atal niwed ac alldynnu, ond hefyd er mwyn dod i gasgliadau llawer mwy ystyrlon a gonest.

Roedd ymddiried yn allweddol, nid yn unig er mwyn ennyn y syniadau a safbwyntiau mwyaf defnyddiol gan gyfranwyr ond hefyd er mwyn galluogi'r cynulleidfaoedd a bennwyd gan y tendr hwn ar gyfer ymgysylltu ehangach i deimlo'n ddigon cysurus i gymryd rhan. Ymddiried yw sail

ymgynghori nad yw'n alldynnol, lle mae gwir fwriad a safbwynt y rheini sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn sail i bob gohebiaeth, ac mae rôl y cyfrannwr a mesurau i'w diogelu wedi'u sefydlu'n glir. Hefyd, roedd yn ymddangos fod y teimlad o ymddiried ac ailsefydlu'r ymddiried hwnnw yn digwydd wrth weld pobl groenliw yn cynnal y broses. Tu hwnt i werthfawrogi'r gynrychiolaeth, mynegodd cyfranwyr eu bod yn ymddiried yn y sawl oedd yn creu lle i rannu eu profiadau a'u syniadau, eu prosesu a'u cynrychioli oherwydd y ffordd yr oeddem ni'n siarad â nhw. Er mwyn peidio â bod yn alldynnol, rhaid bod yn dryloyw, gwrando â gofal, rhoi'r amser digonol a chadw mewn cysylltiad wedi hynny. Ac eto, mae'n bwysig cydnabod nad oes gan y Cyngor na'r Amgueddfa y profiad bywyd o fewn eu sefydliadau i allu dyblygu'r model hwn, am fod alldynnu yn rhan annatod o strwythur y sefydliad. Yn yr un modd â phob corff arall dan arweiniad pobl wyn sy'n ceisio lleihau'r niwed a achosir trwy brosesau gwerthuso, rhaid i'r Cyngor a'r Amgueddfa fuddsoddi mewn rhoi grym i'r rheini sydd a phrofiad bywyd ac arbenigedd. Mae'r adran ganlynol yn disgrifio canfyddiadau ymgynghoriadau Cam 2.

# 5. Tueddiadau a Ganfuwyd wrth Ymgynghori

### Tocynistiaeth

Ar ryw adeg, roedd llawer o'r artistiaid Du a chroenliw nad ydynt yn Ddu y siaradwyd â nhw wedi cwestiynu a oedden nhw wedi cael eu hystyried am waith oherwydd eu profiadau neu am fod angen i gyrff celfyddydol roi 'tic yn y blwch'. Nododd rhai artistiaid Du eu bod ond wedi cael comisiwn am waith yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon, er iddynt ymgeisio am waith gyda'r Amgueddfa a'r Cyngor ar amryw adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Nodwyd yn benodol gynnydd sylweddol yn y sylw a gafwyd yn dilyn llofruddiaeth George Floyd a'r protestiadau cysylltiedig yn ystod haf 2020. Dywedodd llawer hefyd eu bod nawr yn cael sylw a chynigion am waith gan gyrff oedd wedi eu gwrthod (droeon) yn y gorffennol.

Hefyd, trafododd llawer o gyfranwyr eu profiadau o docynistiaeth ymhellach gan nodi fod hyn hefyd yn digwydd pan dybir mai gwaith sy'n canolbwyntio ar eu treftadaeth/cymunedau yn unig a wneir ganddynt, neu mai'r math hwn o gyfle yn unig a gynigir iddynt. Eironi hynny yw mai pur anaml y caiff artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu – sydd yn gwneud gwaith sy'n ymgysylltu'n gymunedol – gefnogaeth ariannol gyda'u gwaith.

Dywedodd un cyfrannwr ei bod yn *"drist bod angen i ni weithio allan os ydyn ni'n cael ein tanwerthfawrogi"*, a mynegodd eraill yr un teimlad – fod tocynistiaeth wedi arwain at ddiffyg hyder yn eu gallu fel artist, yn enwedig pan fyddai gwaith yn cael ei gynnig. Roedd tocynistiaeth wedi creu ymdeimlad o ansicrwydd yn enwedig ymhlith artistiaid newydd, fel nad oedd modd

iddynt ymlacio na mwynhau cyfleoedd am eu bod yn poeni am y deinameg oedd yn gysylltiedig â’r ffaith mai nhw oedd yr unig berson Du/person croenliw nad yw’n Ddu yn yr ystafell.

**roedd hyn yn cynnwys cwestiynu a oedd eu gwaith yn ddigon da, p’un a fyddai pobl yn deall y gwaith, p’un a fyddai’n derbyn y gefnogaeth/mentora priodol ac addas gan dîm cwbl wyn, teimlad o orfod gweithio ddwywaith mor galed â chydweithwyr neu gyfoedion gwyn.*

## Mae Bywydau Du o Bwys a datganiadau

Ar ôl digwyddiadau’r haf, mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu wedi sylwi ar gynnydd sydyn yn y diddordeb a’r ceisiadau i ymgysylltu â nhw, ymgynghori â nhw a’u cyflogi ac maen nhw’n ceisio deall pam y bu’n rhaid i ddigwyddiadau mor erchyll orfod digwydd er mwyn gwthio sefydliadau dan arweiniad gwyn i weithredu, yn enwedig o ystyried fod pobl wedi bod yn codi llais am faterion systemig, diffyg ymgysylltiad a rhagfarn sefydliadol ers degawdau.

I’r perwyl hwn, mae diffyg ymddiried yn ‘natganiadau BLM’ y Cyngor a’r Amgueddfa gyda chyfranwyr yn nodi eu bod yn berfformiadol iawn. Nododd un cyfrannwr fod y datganiadau yn torri’r cyswllt / cynyddu’r pellter rhwng y cyrff a’r ymgyrch BLM. Dymuna WAARU ofyn pam fod y Cyngor a’r Amgueddfa yn parhau i ymgeisio i ymddangos yn ‘anwleidyddol’ o ystyried fod gorthrwm systematig y mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn ei wynebu yn gwbl wleidyddol ac yn deillio o agweddau a diffyg gweithredu ym mhob sector.

Cytunodd pob cyfrannwr y byddai’n rhaid iddynt weld camau gweithredu cadarn a gweladwy cyn iddynt ymddiried/bod â ffydd yn y datganiadau hyn.

Mae hefyd yn bwysig nodi y casglodd WAARU ddatganiadau cyrff dan nawdd y Cyngor dros yr haf a’u dadansoddi. Mae canlyniadau’r ymchwiliad yma. Rydyn ni’n gobeithio y gallwch werthfawrogi ein braw o weld cyn lleied mae cyrff sydd dan nawdd y Cyngor ac sy’n cynrychioli Cymru yn poeni am fywydau pobl Dduon – fel y gwelwch ni lwyddodd y rhan helaeth ohonynt i gyhoeddi datganiad hyd yn oed, gan ddewis parhau i hyrwyddo eu rhaglenni eu hunain yn lle. Ac eto, nid ydynt yn atebol am eu gweithrediadau neu ddiffyg gweithredu, sy’n dangos unwaith eto fod y Cyngor yn penderfynu diogelu sefydliadau dan arweiniad pobl wyn, sydd yn ddatganiad gwleidyddol ei hun.

## Hygyrchedd ceisiadau

Pryder cyffredin a fynegwyd gan bob cyfrannwr oedd hygyrchedd ceisiadau am nawdd ac am waith. Disgrifiodd y cyfranwyr amryw ffactorau sy’n cyfrannu at weld ceisiadau yn anhygyrch, gan gynnwys effaith yr iaith a ddefnyddir, y llwyth gwaith gweinyddol trwm, diffyg cysylltiadau

parod eu cefnogaeth a natur ‘tic yn y blwch’ ceisiadau. Wrth drafod y sgiliau sy’n rhaid eu cael i ymgeisio, dywedodd un cyfrannwr *“Nid yw adnoddau ar gael i bobl sy’n edrych fel fi.”*

Mae hefyd yn bwysig nodi effaith croestoriadedd ar brofiad unigolyn o ymgeisio – mae cyfranwyr Du neu gyfranwyr croenliw nad ydynt yn Ddu, o’r dosbarth gweithiol a/neu yn F/fyddar, yn niwrowahanol neu’n anabl, yn profi anhygyrchedd ceisiadau mewn ffyrdd amlhaenog, ac maent yn wynebu nifer o rwystrau sy’n berthnasol i wahanol rannau o’u hunaniaeth. Er enghraifft, dywedodd un cyfrannwr sy’n Ddu neu’n groenliw nad yw’n Ddu, o’r dosbarth gweithiol ac yn ddyslecsig fod ceisiadau (i’r Cyngor yn benodol) yn ‘rhwystr mawr’ ac yn ‘hollol anhygyrch’ gan nodi ei fod yn teimlo’n ‘gwbl annhebygol’ o dderbyn nawdd. Dywedodd y cyfrannwr hwn, sy’n gerddor, y byddai hefyd yn hoffi cael cymorth gan y Cyngor i lenwi ffurflenni ymgeisio am nawdd ar gyfer cynhyrchu a mynediad at offer, ond nad oedd yn gwybod sut i gysylltu â’r Cyngor nac yn deall pa fath o nawdd oedd yn addas ar ei gyfer. Pan ofynnwyd a oedd yn ymwybodol y gall ymgeisio am nawdd ymchwil a datblygu gan y Cyngor, dywedodd nad oedd yn gwybod hynny gan nodi *“Mae’r adnodd hwn yn ymddangos yn ddewisol* [discretionary] *iawn.”* Dywedodd hefyd nad oedd yn gwybod y dylai gael ei dalu am ymchwil a datblygu a’i “amser”. Roedd hyn yn destun pryder difrifol i WAARU am fod pobl sydd ddim gwybod y cânt hawlio tâl priodol am eu hamser na’n ddigon hyderus i ofyn amdano yn agored i gael eu hecsbloetio a derbyn tâl annheg.

Sylwodd WAARU hefyd fod teimlad cyffredinol bod angen ‘ffordd i mewn’ i’r Cyngor er mwyn llwyddo i ennill nawdd; nododd cyfranwyr eu bod yn teimlo bod angen iddynt *“nabod rhywun tu fewn y sefydliad”* neu ei fod *“am bwy ti’n ’nabod”*. Nododd un cyfrannwr y dywedwyd wrtho ar ddechrau ei yrfa yn y celfyddydau *“Rhaid i ti nabod rhywun ar yr ochr fewn, ac yn fwy na hynny, mae’n rhaid i ti fod yn rhan o grŵp”.* Mae’r diwylliant hwn yn danwydd i elitaeth o fewn y sector ac yn creu ymdeimlad o ddieithrio ac ‘arallrwydd’ y mae pobl hefyd yn ei brofi mewn cymdeithas yn gyffredinol. Yn y pen draw bydd hyn yn eu hachosi i beidio ag ymgeisio yn y lle cyntaf am y byddant yn cymryd yn ganiataol y byddant yn cael eu gwrthod.

Pwynt arall i’w nodi yw’r dull ‘tic yn y blwch’ o lunio ceisiadau. Roedd cyfranwyr yn teimlo bod angen iddynt newid eu hunain a’u gwaith creadigol er mwyn ffitio i flwch penodol os am ennill nawdd project a’u bod yn teimlo na fyddent yn llwyddiannus os nad oedd eu gwaith yn *“ffitio”* meini prawf tic yn y blwch. Awgrymodd un cyfrannwr fod y teimlad hwn wedi codi oherwydd geiriad y galwadau am nawdd, gan ddweud *“Mae artistiaid yn cymryd rhai pethau yn ganiataol a does dim esboniad yn y canllawiau, ond mae’n dal i deimlo fel bod angen iddyn nhw ymddwyn mewn ffordd benodol neu greu math benodol o waith.”* Disgrifiodd cyfrannwr arall yr iaith fel *“blwch mawr i’w lenwi â thic”* oedd yn teimlo yn *“anghyraeddadwy”* ac fel pe baent yn chwilio am rywun â *“llwyth”* o brofiad. Trafododd yr un cyfrannwr sut maen nhw’n ymdrechu i wneud i’w waith *“ffitio”* cais drwy ganfod y ffordd iawn o esbonio ei waith yn unol â meini prawf y cais.

Nid un grŵp homogenaidd yw artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu, ac er ein bod yn deall yr angen am dargedau 'amrywiaeth' mesuradwy, mae hyn yn arwain at deimladau o docynistiaeth fel y nodwyd eisoes yn yr adran hon o'r adroddiad. Roedd cyfranwyr yn teimlo bod angen iddynt son am rannau o'u hunaniaeth e.e. ethnigrwydd, anabledd neu gefndir dosbarth cymdeithasol mewn ceisiadau ac y byddent yn fwy tebygol o lwyddo o'r herwydd. Wrth ymgeisio am nawdd ymchwil a datblygu am y tro cyntaf, cafodd un cyfrannwr gyngor i *"dynnu sylw at ei hunaniaeth hil gymysg i gael y nawdd."* Disgrifiodd cyfrannwr arall geisiadau celfyddydol fel *"rhan greiddiol o strwythur gynhyrchu a llwyddiant cyfalafol – yn seiliedig ar ganlyniad a chynhyrchu."*

Nododd un cyfrannwr hefyd bod cyrff/cydweithfeydd llai a sefydliadau mwy (rhoddwyd Opera Cenedlaethol Cymru fel enghraifft) yn ymgeisio am yr un nawdd, a bod hyn yn "*daunting*" i artistiaid llai profiadol. Tra bod sefydliadau mwy a chanddynt fwy o nawdd/incwm yn gallu neilltuo cyllid i gael cymorth allanol â cheisiadau nawdd ac opsiynau codi arian, mae artistiaid/cyrff/cydweithfeydd llai yn cario baich gweinyddol sydd ynghlwm â nawdd yn ogystal â cheisio dygymod â phrosesau ymgeisio cymleth – manylion cyllideb, deall jargon, teilwra ceisiadau i feini prawf – ac y gall fod yn brofiad llethol heb gefnogaeth.

Wrth gynnig syniadau i wella hygyrchedd ceisiadau a nawdd, awgrymodd y cyfranwyr y canlynol:

- Cynnal sgwrs ar draws y sector, ailasesu'r iaith a ddefnyddir a chael gwared ar jargon.
- Proses mwy rhyngweithiol, er enghraifft person cyswllt clir a chanddo enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, all gynghori gydol y broses ymgeisio.
- Gallu trafod syniadau â pherson cyswllt yn y Cyngor dros y ffôn, dechrau deialog agored â rhywun rydych chi'n gysurus â nhw er mwyn trafod eich gwaith yn agored ac yn onest dros gyfnod hir.
- Dylai'r Cyngor bennu cwotâu ar gyfer sefydliadau ynghylch faint o'u harian ddylai gael ei roi i gyrff dan arweiniad pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu.
- Gosod ffiniau ar gylch cyflogaeth staff sy'n gwneud penderfyniadau e.e. prif swyddogion gweithredol, rheolwyr, aelodau bwrdd i wasanaethu am gyfnodau penodol.
- Llai o bwyslais ar gynhyrchu a chanlyniadau mewn ceisiadau nawdd.

### Estyn allan yn gynnar

Syniad cyffredin arall oedd y dylai'r Cyngor sicrhau ei bod yn weladwy ymhlith disgyblion ysgol a myfyrwyr prifysgol er mwyn dod yn bresenoldeb cyfarwydd yn gynnar, cyn i bobl gychwyn ar eu gyrfaoedd. Wrth drafod â thri cyfrannwr yn helaeth am y syniad hwn, cytunodd y tri y byddai'r gwaith cynnar hwn yn sicrhau fod y Cyngor yn ffigwr haws mynd ato. Rydym hefyd o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â'r teimlad a ddisgrifiwyd yn adran hygyrchedd ceisiadau'r adroddiad tueddiadau hwn, fod angen i bobl gael 'ffordd i mewn' neu adnabod rhywun yn y

Cyngor er mwyn adeiladu perthynas â'r sefydliad, ac yn ei dro bydd hyn hefyd yn helpu gyda hygyrchedd y ceisiadau. Gofynnodd un cyfrannwr, a raddiodd o'r brifysgol yn ddiweddar, *"Pam nad yw Cyngor y Celfyddydau wedi dod i fy mhrifysgol?"*, gan awgrymu y byddai cynnal sgyrsiau a sesiynau gwâdd gyda chynrychiolwyr y Cyngor mewn colegau prifysgol ac ysgolion (er mwyn cyrraedd pobl ifanc/pobl fydd ddim yn mynd i brifysgol) yn sicrhau eu bod yn fwy cysurus yn cysylltu â'r sefydliad wedi iddynt raddio ac y byddai ganddynt well dealltwriaeth o rôl a gwasanaethau'r Cyngor. Disgrifiodd cyfrannwr arall effaith bosibl y gwaith estyn allan cynnar hwn fel a ganlyn *"i deimlo'n rhan o rywbeth cyn i chi hyd yn oed gymryd rhan yn iawn."*

Er bod profiad yr Amgueddfa yn wahanol gan fod ymgysylltiad y cyfranwyr yn dueddol o fod drwy ymweliadau ar deithiau ysgol neu ddiwrnodau allan gyda'r teulu pan oeddent yn blant, nodwyd eu bod yn colli diddordeb wedi iddynt adael yr ysgol neu yn teimlo nad oeddent yn perthyn yn yr amgueddfa ragor. Dywedodd un cyfrannwr fod ganddo ddiddordeb mewn bod yn artist ar ôl gweld orielau celf ar ymweliad ysgol ond *"nad oedd yn glir sut i gyrraedd y lle fel artist, a doedd neb yn dweud."* Stopiodd yr un cyfrannwr ymweld, ond aeth yn ôl yn ei arddegau a chael profiad negyddol gyda swyddog diogelwch *"wnaeth wneud i fi gwestiynu os oeddwn i'n haeddu bod yno a hyd yn oed yn cael defnyddio'r tai bach."* O ganlyniad i'r profiad hwnnw, roedd y cyfrannwr yn anghysurus ac roedd yr amgueddfa yn teimlo fel lle bygythiol, ac nid yw wedi dychwelyd ers hynny. Doedd y cyfrannwr hwn, sy'n gweithio fel hwylusydd creadigol, ddim yn gwybod am y ffyrdd y gallai weithio gyda'r amgueddfa nawr nac ychwaith y gallai weithio yno yn hwyluso sesiynau i bobl ifanc. Dywedodd y byddai ganddo ddiddordeb yn hyn er nad oedd yn gwybod pwy i holi am ragor o wybodaeth. Pe bai perthynas wedi ei gynnal trwy allestyn drwy eu bywydau, o'r ysgol i'r brifysgol a thu hwnt, mae'n bosibl y byddai wedi teimlo fod yr Amgueddfa yn sefydliad haws mynd ato, haws gweithio yno a haws uniaethu ag ef.

### Effaith profiadau negyddol anghyfiawn

Siaradodd y mwyafrif o gyfranwyr am effaith profiadau negyddol anghyfiawn arnynt – mewn perthynas â hiliaeth a microymosodiadau gan fwyaf – yn ogystal â cheisiadau a wrthodwyd heb esboniadau neu adborth rhesymol. Roedd y cyfranwyr wedi blino'n lân yn sgil y blinder emosiynol ac ymenyddol a achoswyd gan driniaeth annheg, rhwystrau i gyfleoedd a theimladau o gael eu hallgau dro ar ôl tro. Pan fydd ceisiadau am nawdd yn cael eu gwrthod heb esboniad na chanllaw digonol, mae hyn yn rhoi ergyd i'w hyder ac mewn llawer o achosion maen nhw'n annhebygol o ymgeisio eto.

Nododd un cyfrannwr, a fu'n gweithio yng Nghymru am dros 15 mlynedd, nad oedd erioed wedi derbyn nawdd gan sefydliad Cymreig. Cafodd brofiad negyddol gyda sefydliad wnaeth ei annog i ymgeisio, cyn cael gwybod wedi'r broses fod ei broject – oedd ynghlwm â chreu cysylltiadau rhyngwladol rhwng Cymru a'r byd – *"ddim yn ddigon Prydeinig"*. Wedi hynny *"enciliodd"* y cyfrannwr ac nid yw wedi ymgeisio am nawdd ers hynny. Ynghyd ag esiamplau eraill yn

ymwneud â hil, dywedodd y cyfrannwr *"na fyddai'n rhoi cyfle i rywun arall ei fychanu"*. Er iddo fyw yng Nghymru am flynyddoedd, dywedodd *"nad oedd erioed wedi cael ei drin fel Cymro."* Er gwaetha'r profiadau hyn mae'r cyfrannwr wedi parhau i greu gwaith hunan-noddedig yn bennaf ond dymuna WAARU nodi fod gan y profiadau hyn y potensial i stopio pobl rhag ymarfer eu crefft yn gyfangwbl.

Trafododd cyfrannwr arall brofiad a gafodd gyda sefydliad sydd yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru, pan ymgeisiodd am swydd technegydd. Dywedwyd wrtho yn y cyfweliad fod "llawer o swyddi glanhau" *(mae enw'r sefydliad wedi cael eu dynnu o'r adroddiad hwn ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymchwilio i'r mater hwn ymhellach a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol).* Ni chlywodd yn ôl am y cyfweliad a nododd ei fod wedi teimlo yn anghysurus iawn yn ystod y cyfweliad. Dywedodd hefyd ei fod wed cymryd amser hir iddo "deimlo'n hyderus ac ymgeisio am swyddi".

Disgrifiodd cyfrannwr arall broses hir a hirwyntog y bu'n rhaid mynd drwyddo i gael nawdd gan y Cyngor, er ei fod eisoes yn artist a oedd wedi ennill ei blwy ar ddechrau'r broses. Disgrifiodd y profiad o fod *"wedi'i allgau'n llwyr"* ac *"mae bod yn ddyn Du yn ceisio ennill bywoliaeth [yn y celfyddydau] yn rhwystredig."* Wedi iddo gael ei wrthod am nawdd dair gwaith, roedd yn rhaid i'r cyfrannwr fynd tu hwnt i'r hyn oedd yn rhesymol i brofi ei fod yn artist a'i fod yn gallu gwneud y gwaith trwy ei wneud ei hun yn *"anodd ei osgoi"* a gorfod *"rhoi fy hun yn eu hwynebau [y Cyngor] nes oedden nhw'n methu fy anwybyddu"*. Nid oes gan bob cyfrannwr yr hyder i wneud hyn. Cafodd profiadau'r cyfrannwr hwn, sy'n gyffredin iawn, eu crisialu gan gyfrannwr arall: *"Mae'r camau hyn gan sefydliadau wedi gwthio cenedlaethau o bobl greadigol i ffwrdd. Mae pobl yn teimlo'n anweledig, yn bwy ar y cyrion ac yn teimlo nad yw Caerdydd yn eu deall."* Mae WAARU yn adleisio hyn, sy'n dangos i ba raddau mae Cymru wedi colli allan ar dalent a hefyd y niwed a wnaed i bobl greadigol sy'n teimlo nad yw eu dinas yn perthyn iddyn nhw.

## Synnwyr o Berthyn

Mae'r duedd hon o deimlo nad ydynt yn perthyn i'r sector yn gysylltiedig â'r pwynt blaenorol, effaith profiadau negyddol anghyfiawn. Dim ond 2 o'r 22 o gyfranwyr oedd yn teimlo fod ganddynt ymreolaeth yn y celfyddydau. Mae hyn yn gysylltiedig ag effaith profiadau negyddol fel y nodir yn y pwynt blaenorol; diffyg cynrychiolaeth pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu mewn sefydliadau (ar bob lefel staffio); diffyg digwyddiadau, arddangosfeydd ac ati yn ogystal ag elitaeth a diffyg atebolrwydd a thryloywder. Mae'r ffigwr hwn yn dangos i ba raddau mae angen gweddnewid y sector er mwyn i bawb deimlo eu bod yn perthyn a'u bod wedi'u grymuso i weithredu. Mae hefyd yn gysylltiedig â'r cysyniad o 'Gymreictod' sydd yn aml yn dieithrio pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu a'u 'haralleiddio' – mae'r syniad yn bodoli nad oes modd i chi fod yn Gymro neu'n Gymraes os nad ydych chi'n wyn. Enghraifft o hyn oedd y cyfrifiad Cymreig diweddar oedd yn caniatáu dewis eich bod yn Wyn ac yn Gymro/Cymraes, ond Prydeinig yn unig oedd y dewis i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu, e.e. 'Asiaidd

Brydeinig'. Er y cafodd hyn ei wyrdroi yn ddiweddarach yn dilyn ymateb cryf y cyhoedd, mae'n dystiolaeth fod y syniad hwn yn fyw yn ein cymdeithas ac yn bwydo'n naturiol i strwythurau sectorau'r celfyddydau a threftadaeth.

Thema gyffredin ymhlith y cyfranwyr mewn perthynas ag Amgueddfa Cymru yw nad yw pobl yn teimlo'n gysurus na'u bod yn perthyn yn yr amgueddfa, gan ddisgrifio'r sefydliad yn lle digroeso neu fygythiol. Mae ymdeimlad nad oedd y cyfranwyr yn teimlo bod arddangosfeydd na digwyddiadau'r amgueddfa yn eu cynrychioli nhw na'u diddordebau, nac ychwaith amrywiaeth cymunedau Cymru. Soniodd nifer o'r cyfranwyr am amgueddfa Butetown, sydd bellach ar gau, gan fynegi dymuniad i gael y math hwn o le eto. Dywedodd un cyfrannwr yr hoffai *"weld amgueddfa genedlaethol Butetown neu rywbeth sy'n cynrychioli amrywiaeth ddiwylliannol Cymru, sydd wastad wedi bod yna."* Ynghylch cynrychiolaeth, siaradodd cyfrannwr arall am strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru *"sy'n siarad am ddiasporâu gwyn Cymreig tu hwnt i Gymru, ond ddim yn son am y diasporâu sy'n byw yng Nghymru."*

Nododd cyfrannwr arall fod *"llawer o hanes a'r ffordd mae hanes yn cael ei gyflwyno i ni yn cael ei lunio gan genedlaetholwyr"* ac er mwyn sicrhau cynnydd, bod angen i'r syniad o *"genedlaethol fod yn llai o frand, llai o frandio a hunaniaeth a mwy o gyfuniad o brofiadau. Mae'r gair yn allgau pobl."*

Roedd un cyfrannwr wedi bod ar banel ar gyfer project Amgueddfa Cymru a disgrifiodd le dan arweiniad pobl Ddu lle'r oedd pawb yn gysurus ac yn hyderus i rannu eu meddyliau a'u safbwyntiau. Disgrifiodd amgylchedd lle'r oedd *"pobl yn gwrando"* ac yn teimlo wedi'u grymuso i weithredu. Os mai'r cyfrannwr oedd yr unig berson Du yn yr ystafell, fel y nododd sy'n aml yn wir, mae'n debygol na fyddai'n teimlo'r un synnwyr o hyder ac ymreolaeth. Er mwyn i bobl allu ffynnu yn y sector, rhaid iddynt deimlo eu bod yn perthyn.

### Diffyg cymryd risg

Dywedodd llawer o gyfrannwr fod projectau dan arweiniad pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn destun craffu manylach, gan olygu bod llai o gyfleoedd ar gael yn gyffredinol. Nodwyd hefyd fod gwreiddiau hyn yn y diffyg gwybodaeth ddiwylliannol ehangach, lle gall sefydliad dan arweiniad pobl wyn wrthod syniad am nad ydynt yn gallu uniaethu ag e, neu ddeall ei arwyddocâd ehangach. O gymharu, nododd cyfranwyr fod toreth o brojectau dan arweiniad pobl wyn oedd yn annelwig, yn anodd eu deall neu heb eu datblygu cystal, a'u bod wastad yn derbyn nawdd hael heb gymaint o betrusdod ar ran y noddwr.

**Atebolrwydd**

Roedd diffyg atebolrwydd yr Amgueddfa a'r Cyngor yn gatalydd i rwystredigaeth llawer o bobl. I ddechrau, does dim proses gweladwy iawn neu dryloyw i ddwyn y Cyngor na'r Amgueddfa i gyfrif am eu gweithrediadau neu ddiffyg gweithredu. Hefyd, dywedodd llawer o'n cyfranwyr eu bod yn dal yn ôl rhag cwyno am eu bod yn teimlo na fyddai dim byd yn newid ac y gallai hyn achosi canlyniadau negyddol (mesurau fyddai'n cosbi, gan gynnwys rhagfarn wrth gyflogi). Nid yw gweithdrefnau cwyno mewnol yn gwneud synnwyr achos yn ei hanfod, byddai unigolyn yn cwyno yn erbyn y sefydliad sy'n ei gyflogi/y mae'n ymgeisio am nawdd ganddo... tra'i fod o fewn yr un sefydliad. Felly, sut allwn ni ymddiried y bydd y broses gwynion yn cael ei gynnal yn deg?

*"Dwi'n meddwl bod angen cyrff allanol eraill i'w dwyn i gyfrif – gyda'r cyhoedd yn unig, fydd dim byd yn newid."*

Fel y gwelwch o'n rhestr o alwadau, sbardunodd hyn ein syniadau am ddatblygu Cyngor Pontio.

Yn ystod cam cyntaf ein tendr, nodwyd fod sefydliadau dan arweiniad pobl wyn yn derbyn nawdd ac yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o bortffolio'r Cyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond mewn gwirionedd nid oeddent yn bodloni'r meini prawf adolygu buddsoddiad, gan gynnwys rhoi strategaethau hirdymor ar waith i amrywio gweithleoedd a chynulleidfaoedd. Fodd bynnag, roedden nhw'n dal i dderbyn nawdd gyda neges glir nad oedd gan y Cyngor ddiddordeb yn eu dwyn i gyfrif am fethu â gweithredu (tan nawr).

Hefyd mae'r Cyngor a'r Amgueddfa wedi tanlinellu eu bod am bontio'r bwlch rhwng 'y celfyddydau' a 'chymunedau'. I'r perwyl hwn, rydym wedi clywed gan bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sydd eisoes yn gwneud y gwaith o greu cynnwys, digwyddiadau a gweithgareddau diddorol, hygyrch a chyffrous ar gyfer eu cymunedau. Did ydynt eto wedi derbyn nawdd ond mae rhwystrau hefyd wedi cael eu gosod yn eu ffordd gan gynnwys diffyg hygyrchedd ceisiadau, e-byst heb eu hateb, agwedd negyddol a nawddoglyd gan staff y Cyngor, sgyrsiau sy'n diystyru profiadau bywyd pobl, ac annidwylledd. Mae unigolion a chydweithfeydd bach wedi cael eu canmol am eu gwaith ar y naill law, a'u ceisiadau am nawdd wedi'u gwrthod ar y llaw arall.

Yr hyn a welwn, felly, yw anogaeth barhaus (trwy gefnogaeth a nawdd) am ddegawdau i sefydliadau dan arweiniad pobl wyn amrywio'u gweithluoedd ac allbynnau diwylliannol er ei fod yn glir nad oes ganddynt ddiddordeb mewn gwneud hyn. Yn hytrach na gorfodi sefydliadau dan arweiniad pobl wyn i amrywio, rydym yn credu mai'r ateb mwyaf synhwyrol a fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau fyddai, yn syml, noddi a chyflogi pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu.

**Diffyg staff croenliw / diffyg perthnasedd**

Dywedodd llawer o gyfranwyr ei bod yn anodd iawn uniaethu â'r ddau sefydliad – o safbwynt cynulleidfaoedd oherwydd diffyg perthnasedd diwylliannol neu apêl i'w diddordebau a phersonoliaethau, ac o safbwynt gweithwyr celf oherwydd y bylchau mewn cenedlaethau, a diffyg profiad bywyd aelodau uwch/noddwyr. Canlyniad hyn oedd fod llawer o ymgeiswyr (wrth ymgeisio am nawdd project) wedi'u llethu gan yr angen i esbonio'u hunain, eu treftadaeth ddiwylliannol a sut roedd hyn yn perthyn (neu ddim yn perthyn) i'r gwaith yr hoffent ei wneud. O gymharu, nid oedden nhw'n credu bod unigolion na sefydliadau gwyn yn gorfod gwneud yr un peth, hyd yn oed os oedd eu gwaith yn haniaethol iawn.

Dywedodd un cyfrannwr am ei amser yn y Brifysgol fod y darlithwyr yn deall ei syniadau ond nad oedd modd iddynt roi'r gefnogaeth briodol iddo am nad oeddent yn gallu uniaethu â'i waith yn bersonol. Digwyddodd hyn hefyd wrth gwrdd â'r Cyngor i drafod cais i barhau â phroject cymunedol (a gafodd ei gynnal yn dda iawn ac a groesawyd gan y Cyngor). Ymgeisiodd yr unigolyn hwn am nawdd ond cafodd ei wrthod a derbyn cyfarwyddyd i gysylltu â rhywun i drafod y cais ymhellach, ond ni ddaeth rhagor o ohebiaeth i law. I'r perwyl hwn, pan ofynnwyd i'r cyfranwyr o ble y daw eu cefnogaeth, nodwyd fod "*pobl greadigol ifanc yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn cael cefnogaeth o fewn eu cymuned."*

Carem nodi hefyd fod y profiad hwn yn ei gyfanrwydd yn gyffredin ymhlith y cyfranwyr.

Dywedodd cyfrannwr arall wedi cyfarfod â Chyngor Celfyddydau Cymru a chael eu gwrthod am nawdd, ei fod wedi gofyn i sefydliad yn Lloegr am nawdd a'i dderbyn.

*"Ddim yn fy neall i na beth oeddwn i'n trio'i wneud. Roedd gwaith y rhai gafodd nawdd yn haniaethol."*

Yn ystod ein cam cychwynnol, astudiwyd yr adroddiadau niferus gan yr Amgueddfa a'r Cyngor yn datgan mai nod craidd y ddau gorff oedd pontio'r bwlch rhwng 'y celfyddydau' a 'chymunedau'. Felly, nid ydym yn siŵr pam eich bod yn ymateb i aelodau'r cymunedau amrywiol hyn sy'n estyn allan, yn ymgeisio ac yn cyflwyno ffyrdd o weithio gyda'r bobl mae eich cyrff yn honni bod mor awyddus i gysylltu â nhw trwy eu gwrthod, eu hanwybyddu a'u gadael heb gefnogaeth?

Dywedodd cyfrannwr arall fod y diffyg dibynadwyedd hwn – gan y ddau sefydliad – yn dangos hierarchaeth anghysurus ar gyfer gofyn am gyngor gan bobl oedd heb y profiadau bywyd i allu cynnig atebion, *'Allwch chi ddim efelychu'r hyn sydd ddim o'ch blaen'.* Gan ehangu ar y pwynt hwn, dywedodd cyfrannwr arall fod ffurfioldeb y cyfarfodydd yn ei ddal yn ôl ac yn gwneud iddo gwestiynu a fyddai'n gymwys am y nawdd, hyd yn oed cyn iddo ddechrau esbonio'r project. Nododd cyfranwyr eu bod yn teimlo'n gysurus yn cael eu cyfweld gan WAARU oherwydd natur

anffurfiol y sgyrsiau. Law yn llaw â'r ffaith mai pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu oedd yn arwain y sesiynau roedd hyn yn golygu fod y broses yn hygyrch ac yn hawdd.

*"Dydyn nhw ddim yn hawdd mynd atynt, er eu bod lawr yn y Bae".*

Roedd pob cyfrannwr yn cytuno fod cynyddu nifer y bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy'n gweithio i'r Cyngor a'r Amgueddfa yn allweddol er mwyn gwella perthnasedd a sicrhau fod ymgeiswyr a gweithwyr llawrydd yn cael cyfle tecach i gael at y cyfleoedd. Pan ofynnwyd i gyfranwyr am atebion i'r broblem hon nodwyd pwysigrwydd y canlynol:

- Cynyddu niferoedd cyffredinol o fewn y sefydliadau, pennu cwotâu a chosbi'r rheini sy'n methu â'u cwrdd (sefydliadau portffolio)
- Ymlacio'r pwyslais ar fedru'r Gymraeg a rhoi cyfleoedd i ddysgu wrth weithio
- Cynyddu nifer y bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu mewn adrannau Adnoddau Dynol (AD)
- Rhannu swyddi lle mae angen gallu siarad Cymraeg er mwyn i berson Du neu berson croenliw nad yw'n Ddu (sydd ddim yn siarad Cymraeg) allu gweithio ochr yn ochr â rhywun sydd yn siarad Cymraeg.

Dywedodd un cyfrannwr ei fod yn bwysig deall fod pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy'n ymgeisio am swydd (yn yr Amgueddfa) yn paratoi eu hunain i weithio mewn sefyllfa anghysurus a *"... bod yn gysurus â theimlo'n anghysurus"*. Mae'n bwysig pwysleisio bod pobl yn profi hiliaeth ym mhob agwedd ar eu bywyd ac wrth ddod at sefydliad, maen nhw'n dod â'u profiadau blaenorol sy'n gronnol ac yn ailadroddus gyda nhw.

Yn yr ystyr hwn, nodwyd fod adrannau AD yn benodol yn creu rhwystrau i gynwysoldeb, yn enwedig mewn perthynas â sut mae pobl yn cael eu cyflogi. Mae pobl wyn sy'n cyfweld â phobl Ddu neu bobl groenliw nad ydynt yn Ddu, p'un a ydynt yn y mwyafrif neu'r lleiafrif ar y panel, yn fwy tebygol o ragdybiaethu a beirniadu ymatebion yn fwy llym. Dywedodd un cyfrannwr Du gafodd ei gyfweld ar gyfer swydd dechnegol fod y sawl oedd yn ei gyfweld wedi dweud fod "llawer o swyddi glanhau". Ni chlywodd yn ôl am y cyfweliad a nododd ei fod wedi teimlo yn anghysurus iawn yn ystod y cyfweliad. Dywedodd hefyd ei fod wed cymryd amser hir iddo "deimlo'n hyderus ac ymgeisio am swyddi".

Yn olaf, nododd cyfrannwr arall fod cyflogi pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu er mwyn 'amrywio cynnwys' – ac yng nghyd-destun yr Amgueddfa, herio casgliadau, paentiadau/portreadau o wladychwyr ac ati – ddim ond yn un rhan o'r gwaith. Os yw sefydliadau am newid, a'u bod yn ddiffuant eu bwriad, rhaid iddynt newid eu gwerthoedd diwylliannol ond hefyd eu dulliau o daclo hiliaeth yn enwedig ymhlith eu cynulleidfaoedd. Nid yw'n dderbyniol i ailadrodd yr un datganiad ar y cyfryngau cymdeithasol gan gyfeirio at eich

gweithdrefn gwyno arferol. Er enghraifft os fydd ymateb negyddol i waith pobl Ddu neu bobl groenliw nad ydynt yn Ddu, rhaid i chi godi'ch llais i'w cefnogi.

### Yr angen am dryloywder

Nododd cyfranwyr fod diffyg tryloywder cyffredinol yn sail i fwriadau, cymhelliant a phenderfyniadau a wneir neu a oruchwylir gan yr Amgueddfa a'r Cyngor. Yn benodol, roedd ein cyfranwyr yn awyddus i'r Amgueddfa ddatblygu rhagor o brojectau sy'n datgelu cyd-destunau a tharddiad y casgliadau.

Hefyd, mae'r Amgueddfa a'r Cyngor yn llunio strategaethau fesul degawd ond yn pennu cyllid ar gyfer 3/5 mlynedd o nawdd i sefydliadau – pam? Roedd bron bob un o'r cyfranwyr yn unfryd fod yn rhaid wrth gyfnodau hirach o nawdd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd – ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y rheini oedd yn gweithio gyda chymunedau – er mwyn sicrhau nad oes rhaid torri cysylltiadau â'r bobl maen nhw'n cydweithio â nhw neu frwydro i gynnal eu gwaith a'u bywoliaeth. Hefyd mae datblygiad hirdymor a pharhaus yn allweddol er mwyn cryfhau cymunedau trwy ddiwylliant, gan roi swyddi sefydlog yn ogystal â chyfleoedd cyfranogol.

Nododd rhai bod polisïau yn datgan neu'n gorchymyn rhywbeth, ond fod sut y mae disgwyl i sefydliadau dan arweiniad pobl wyn a phobl Ddu a chroenliw nad ydynt yn Ddu weithredu hyn yn groes i'w gilydd. Er enghraifft, yn seiliedig ar ymchwil cam 1, nododd WAARU fod gofyn (ymhlith pethau eraill) i sefydliadau portffolio'r Cyngor (y mae'r cyfan namyn un dan arweiniad pobl wyn) gynnwys amrywioldeb wrth wraidd eu strategaethau datblygiad parhaus a "chael effaith sylweddol ar fywyd diwylliannol ar draws Cymru". Wrth gwrs, mae hyn yn effeithio ar eu potensial strategol ehangach, gan gynnwys cynaliadwyedd tymor hir a budd cyhoeddus (yn enwedig os oes poblogaethau sylweddol yn cael eu hallgau) yn ogystal â chydweithio a phartneriaethau. Rydym ni, a'n cyfranwyr, am wybod pam fod nifer sylweddol o sefydliadau dan arweiniad pobl wyn sy'n parhau i anwybyddu pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu (heblaw am eu hymateb i bwysau sosio-wleidyddol) yn dal i dderbyn nawdd, a hynny'n nawdd hael, pan mae disgwyl i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu barhau i frwydro, cystadlu, aros, gwirfoddoli, darparu mwy o eirdaon, cael mwy o brofiad gwaith ac yn y blaen?

### Datganiad amgueddfeydd yn taclo tlodi

Yn ystod cam 1 ein hymchwiliad, gwelwyd sawl datganiad gan Amgueddfa Cymru ynghylch defnyddio'i gweledigaeth fel modd o '*ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i daclo tlodi'.* Er y carem wybod mwy am y bwriad sy'n sail i'r datganiad hwn, roeddem am glywed barn y cyhoedd am hyn – felly fe ofynnon ni iddyn nhw. Nododd pob cyfrannwr ddryswch ynghylch y datganiad, gyda llawer yn dweud eu bod mewn gwirionedd yn gweld bod y sector amgueddfeydd yn

cynyddu tlodi yng Nghymru am ei fod yn gefnog ac yn ddrud (yn derbyn cyllidebau cyhoeddus mawr).

Gofynnodd un cyfrannwr sut y gall yr Amgueddfa ddweud ei fod yn taclo tlodi, pan fo diben craidd y sefydliad yn cynnwys arddangos gwrthrychau o wledydd y mae eu cyfoeth wedi'i dwyn trwy wladychiaeth.

Dywedodd cyfrannwr arall ei fod yn rhwystredig clywed am sefydliad fel yr Amgueddfa – sydd dan arweiniad unigolion dosbarth canol, cyflogedig – yn defnyddio'r gair tlodi mor ddi-hid gan anwybyddu effaith hyn ar fywydau pobl.

*'Does dim ystyriaeth o anghenion sylfaenol pobl, y pethau sy'n eu poeni ac yn eu cadw ar ddihun yn y nos. Pethau ymarferol fel cyflogadwyedd ac addysg ac iechyd meddwl yw sut mae helpu pobl. Gall y celfyddydau daclo pethau sy'n cyfrannu at dlodi ond fyddan nhw ddim yn rhoi bwyd ar blât pobl'.*

### Cynulleidfaoedd yn dyheu am arddangosfeydd mwy rhyngweithiol

Nododd y cyfranwyr sawl peth pwysig am saith safle'r Amgueddfa. Yn gyntaf, nad oedd cynrychiolaeth amrywiol ac agored o fywyd Cymreig o fewn yr Amgueddfa (yn enwedig yn Sain Ffagan a Big Pit) – roedd Cymreig yn golygu gwyn, gyda phobl o wahanol ethnigrwydd yn cael eu taflu 'i'r pair' bob hyn a hyn (digwyddiad yma ac acw, neu ddigwyddiad am grŵp lleiafrifol 'x' yng Nghymru). Dywedodd llawer fod hyn yn cyfrannu at y ffordd y mae cymunedau lleiafrifol yn destun tocynistiaeth gan yr Amgueddfa. Meddai un cyfrannwr: *"Rhaid dangos hanes fel llawer o wahanol bobl yn ymwneud â'i gilydd, nid un grŵp yn unig yn gwneud un peth. Mae llawer o bobl yn meddwl mai'r prif ryngweithio rhwng pobl Ddu a phobl wyn yw caethwasiaeth"*. Dywedodd cyfrannwr arall fod ymgais yr Amgueddfa i 'amrywio'r casgliadau' yn "*ffordd ryfedd o siarad am hanes a threftadaeth pobl. Dylai casgliadau fod yn gynhwysol yn naturiol, yn hytrach na chael eu hamrywio er mwyn tawelu pobl dros dro."*

Ail bwynt a godwyd gan lawer o gyfranwyr oedd eu dymuniad i Amgueddfa Cymru ymchwilio ymhellach i'r hanes gwladychol sydd tu ôl i'w chasgliadau. Roedd hyn yn agwedd allweddol yn y broses ehangach o fod yn fwy tryloyw.

*"Os oedd cerflun o berson Du, oedd y cerflunydd yn ei greu er mwyn dweud ei fod yn berchen ar y person?"*

Meddai cyfrannwr arall:
*''Mae beth sydd ddim mewn casgliad yr un mor bwysig â beth sydd yno… beth allwn ni ei ddeall o weld y bylchau hynny. Dylai symud tuag at well cynrychiolaeth olygu siarad am ein gorffennol, gwladychiaeth, caethwasiaeth a sut y cafodd y casgliadau hyn eu creu.*

*Rhaid i ni gynrychioli heddiw ac yfory, yn ogystal â'r gorffennol. Rhaid i ni hefyd arddangos gwrthrychau sy'n cynrychioli LLAWENYDD".*

Safbwynt diddorol arall a godwyd yn ystod ein sgyrsiau oedd bod yr Amgueddfeydd yn aml yn teimlo fel profiad statig am nad oeddent wedi newid ers 20 / 30 / 40 o flynyddoedd. Er enghraifft, roedd cyfranwyr wedi bod i Sain Ffagan ar daith ysgol ond heb deimlo eu bod am ddychwelyd ers hynny. Dywedodd cyfrannwr am yr angen am newid diwylliannol ac mae WAARU yn cytuno fod angen i hyn ddigwydd er mwyn diwallu anghenion a diddordebau'r genhedlaeth gyfredol. I'r perwyl hwn, dywedodd un cyfrannwr iau fod presenoldeb Artes Mundi sy'n curadu artistiaid cyffrous a chyfoes o bedwar ban byd ac yn rhoi cyfle i glywed sgyrsiau a chymryd rhan mewn gweithdai yn atynfa allweddol, ac mai dyna un o'r adegau y byddai'n sicr o ymweld â'r amgueddfa.

*"Rydyn ni'n dal i weld yr un pethau – mae angen iddyn nhw gylchdroi'r hyn sydd ganddynt, cynnal mwy o arddangosfeydd, mwy o ddigwyddiadau".*

*"Meddwl yn greadigol am beth yw amgueddfa, beth ddylai gael ei rannu, sut y gellid ei guradu – cyffrous, rhyngweithiol".*

Dywedodd un cyfrannwr fod diffyg profiad bywyd staff yr Amgueddfa yn golygu nad oeddent yn deall y rhwystrau mae pobl du a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn eu hwynebu, nac ychwaith yn gwybod sut i ddarparu atebion. Er enghraifft, ni fyddent yn deall y byddai'n rhaid i deuluoedd dalu am drafnidiaeth gyhoeddus a chinio, er bod yr Amgueddfa am ddim.

*"Dyw pobl o fy ystâd cyngor i ddim wedi bod i'r amgueddfa achos mae ganddyn nhw bethau eraill i boeni am. Pam fydden ni'n mynd â'r plant i amgueddfa pan maen nhw'n mynd gyda'r ysgol am ddim?"*

Nododd y cyfrannwr hwn hefyd fod disgwyl i'r cymunedau 'fynd i'r Amgueddfa' o hyd, a pham nad oedd yr Ameguddfa yn dod atyn nhw? Roedd ymhlith rhai cyfranwyr a bwysleisiodd a thrafododd y syniad y dylai'r Amgueddfa gynnal arddangosfeydd 'fflach' a 'theithiol'.

*"Mae'r amgueddfa yn brofiad statig gan amlaf – dyw e ddim yn teimlo fel ei bod yn fyw".*

## Mae sefydliadau llai yn gweithio'n well na sefydliadau mwy

Nododd cyfranwyr fod y Cyngor yn awyddus iawn i barhau i roi cyfleoedd i sefydliadau mwy, dan arweiniad pobl wyn brofi eu bod yn llwyddo i ymgysylltu â chymunedau Du a chymunedau

croenliw nad ydynt yn Ddu, er bod y gwrthwyneb yn wir gan fwyaf. Mae llawer yn credu nad oes gan y sefydliadau hyn ddiddordeb mewn ymgysylltu tu hwnt i'w cynulleidfaoedd cyfredol, ond eu bod yn dda am ysgrifennu strategaethau 'creadigol' sy'n rhoi'r argraff i'r gwrthwyneb. O'r herwydd, gellid dweud fod y Cyngor yn galluogi ymddygiad y sefydliadau dan arweiniad pobl wyn. Meddai un cyfrannwr, "*Mae sefydliadau dan arweiniad pobl wyn (ceidwaid pyrth) ac wedi'u sefydlu mewn ffordd sy'n cadw pethau'r un fath".*

O gymharu, mynegodd llawer eu rhwystredigaeth fod projectau llai ar lawr gwlad yn gweithio'n agosach â chymunedau ac yn aml iawn yn deillio ohonynt, ond nad oeddent yn derbyn nawdd er gwaethaf cyfarfodydd ac e-byst diddiwedd. Dywed rhai cyfranwyr fod y Cyngor wedi awgrymu eu bod yn llunio partneriaeth â sefydliadau mwy er mwyn derbyn cyngor a chael eu mentora. Mae hyn yn hynod nawddoglyd – yn ceisio gwanhau profiadau a gwybodaeth dwys pobl – ond nid yw ychwaith yn ystyried y deinamig pŵer sy'n rhan o gydweithio o'r fath.

Hynny yw, nid beth allwch chi ei gynnig sy'n bwysig, ond pa ddylanwad sydd gennych. Nid oes gan sefydliadau llawr gwlad dan arweiniad pobl Ddu neu bobl groenliw nad ydynt yn Ddu nawdd parhaus, swyddfeydd nac adeilad. Pur anaml mae cyfleoedd iddynt rwydweithio felly nid oes ganddynt gyfalaf cymdeithasol ac nid ydynt yn 'adnabod y bobl iawn yn y llefydd iawn'. Yr unig beth allwn ni gynnig yn y sefyllfa hon yw ein llafur a'n cymunedau sydd **wastad**, yn hanesyddol a hyd heddiw, wedi cael eu hecsbloetio gan bobl wyn.

*"Mae'n teimlo fel bod y bobl hyn yn eistedd yn bell i ffwrdd, yn edrych ar y dalent ac yn ei dorri lan, gan ei droi'n fasnachol..."*

Yn olaf, roedd cyfranwyr yn teimlo fod cydweithfeydd llai yn eu deall, yn gwrando arnynt a'i bod yn fwy tebygol y byddai cyfnewid ystyrlon yn digwydd heb yr ofn o gael eich tocyneiddio neu ecsbloetio. Roedd cyfranwyr eraill yn teimlo fod sefydliadau llawr gwlad oedd yn comisiynu gwaith yn rhoi amser a lle iddynt weithio – roedd llai o bwysau ar ganlyniad, a mwy ar ddysgu o'r broses a chyfnewid profiadau ystyrlon, dynol.

Hefyd, ystyriwch y canlynol:

- Pam fod angen ceisiadau ysgrifenedig â 'rhai' enghreifftiau o waith ynghlwm? Dylai fod yn bosibl cyflwyno cais mewn gwahanol gyfryngau, yn hytrach nag ysgrifen yn unig – fideo, byrddau naws, cyflwyniad. Er enghraifft, ystyriwch anghenion hygyrchedd rhywun sy'n cael trafferth ysgrifennu neu sy'n ddyslecsig. Nid yw ffurflenni cyfredol yn hygyrch oherwydd lefel yr iaith, diffyg BSL, hyd a lleoliad (ar-lein). Rhaid i'r Amgueddfa a'r Cyngor symud o'u hagweddau cyfredol sef 'y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau' a meddwl yn ddwys am y math o gais sy'n dderbyniol iddynt a pham. Ydyn nhw'n derbyn cais os yw'r gramadeg yn wallus? Pam fod cais yn cael ei neilltuo os nad yw'r ymgeisydd yn

defnyddio'r iaith neu derminoleg gywir? Mae sut rydych chi'n derbyn yr iaith a ddaw atoch chi yr un mor bwysig â'r iaith a ddefnyddir.

- Pam ydych chi'n gofyn am gymaint o wybodaeth gan sefydliad neu weithiwr llawrydd rydych chi'n ei adnabod yn dda, ac sydd eisoes wedi derbyn sawl rownd o nawdd? Ni ddylai fod rhaid iddynt esbonio hanes eu hymarfer pan rydych chi wedi bod yn eu noddi gyhyd.

- Sicrhau fod projectau celfyddydol sy'n gweithio gyda chymunedau Du a chymunedau croenliw nad ydynt yn Ddu yn blaenoriaethu artistiaid o'r cefndiroedd a'r profiadau hynny.

# 6. Ein Rhestr o Alwadau

Yn dilyn ein hymchwil, ymgynghori a dadansoddiad tueddiadau ar gyfer y tendr Ehangu Ymgysylltiad, rydym ni yn WAARU yn cyflwyno'r galwadau canlynol i'w gweithredu gan yr Amgueddfa a'r Cyngor. Dylid blaenoriaethu'r gwaith hwn, rhaid ymrwymo gyda'r bwriad o weithredu mewn dull amserol a mesuradwy, a dylid buddsoddi'n briodol yn y bobl/grwpiau sydd â'r gallu i'w gwireddu.

Rydym wedi nodi isod ai blaenoriaeth tymor byr, tymor canolig neu dymor hir a roddir i'r alwad.

Ar unwaith – dylid gwireddu'r galwadau hyn o fewn 14 diwrnod o dderbyn y ddogfen hon.

Tymor byr – dylid gwireddu'r galwadau hyn o fewn y 6 mis nesaf. Rydym ni o'r farn y gellir cynnal y gwaith cysylltiedig yn annibynnol gydag ychydig iawn o fewnbwn gan WAARU ac mai camau syml megis neilltuo adnoddau / nawdd / ymgynghoriadau sydd eu hangen mewn llawer o achosion er mwyn gwella mentrau a pholisïau sydd eisoes yn bodoli.

Tymor canolig – mae WAARU yn cydnabod fod gofyn am sgyrsiau pellach a/neu hyfforddiant ar gyfer y galwadau hyn er mwyn rhoi newid ehangach ar waith o fewn sectorau'r Celfyddydau a Threftadaeth, yn ogystal ag addasiadau i weithdrefnau nawdd. Am y rhesymau hyn, rydym wedi nodi amserlen o 6 mis i 1 flwyddyn ar eu cyfer.

Tymor hir – yn olaf, rydym wedi nodi amserlen o 1-2 mlynedd ar gyfer y galwadau hyn. Bydd gofyn am ragor o sylw iddynt, wedi i chi gynnal gwaith ymgynghori pellach ag aelodau WAARU, ein cyfranwyr Cam 2, a sefydliadau ac unigolion eraill. Drwy wneud hyn, gallwn sicrhau y bydd y galwadau hyn yn cael eu gwireddu gan ddangos parch i gymunedau Du a chymunedau croenliw nad ydynt yn Ddu a chan ystyried gwahanol anghenion croestoriadol megis anabledd, dosbarth a niwrowahaniaeth.

## Atebolrwydd

Fel y nodwyd droeon yn ein gwaith â’r Amgueddfa a’r Cyngor, mae dwyn eich hunain i gyfrif yn allweddol er mwyn meithrin yr ymddiried gyda’ch cynulleidfaoedd a gosod sylfaen gadarn i waith ehangu ymgysylltiad. Wrth ymateb i’n rhestr o alwadau, dymuna WAARU dderbyn gwybodaeth yn nodi sut y bydd yr Amgueddfa a’r Cyngor yn rhoi’r newidiadau hyn ar waith, a pha bobl/grwpiau arbenigol ac â phrofiadau bywyd fydd yn arwain ar hyn. Dylai’r ymrwymiad cychwynnol hwn, fel pob ymrwymiad arall yn y dyfodol, fod yn benodol a dylid pennu dyddiadau terfyn. Rydym yn disgwyl clywed am y camau nesaf hyn *o fewn tri mis* o dderbyn yr adroddiad hwn.

Hefyd, pwysleisiodd cyfranwyr Cam 2 yr angen i glywed am gynnydd a goblygiadau’r tendr. Bydd WAARU yn rhannu’r adroddiad â chyfranwyr Cam 2 ac rydym yn gofyn i’r Amgueddfa a’r Cyngor ymateb wedi iddynt ddarllen ein gwaith tendr (gan ymateb yn benodol i’r adrannau am Dueddiadau a’r Galwadau), i’w rannu â’n cyfranwyr *o fewn tri mis* o dderbyn yr adroddiad hwn.

## Egwyddorion

Mae’n bwysig deall ein bod yn galw am y canlynol, yn hytrach na gofyn. Rydym yn dymuno gweithio gyda chi cyn belled â bod y cydweithio hwn yn digwydd mewn modd teg ac rydym yn credu, â phob parch, y bydd peidio â gweithredu’r galwadau hyn sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn dangos diffyg gofal a diffyg gallu’r Amgueddfa a’r Cyngor i stopio parhau â thrais yn erbyn artistiaid, gweithwyr a chynulleidfaoedd Du a chroenliw nad ydynt yn Ddu.

Dyma’r egwyddorion sy’n sail i’r galwadau hyn:

Ni all yr Amgueddfa na’r Cyngor dderbyn fod angen i’r sefyllfa hiliol gyfredol newid heb hefyd dderbyn eu rôl ym mharhad y sefyllfa honno. O ganlyniad, ni ellid ymddiried ynddynt i’n harwain allan o’r sefyllfa hon ac mae’n rhaid iddynt roi grym sylweddol i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu. Tan nawr, mae effaith niweidiol canoli’r profiad gwyn fel y norm wedi cael ei adeiladu mewn i strwythurau nawdd, ond heb ei gydnabod, gan arwain pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu i orfod perfformio mewn ffordd sy’n cyfyngu ar eu potensial ac yn eu gwneud yn destun tocynistiaeth. Trwy gyfyngu’r cyfleoedd a gynigir i unigolion/cymunedau – boed rheini yn gynulleidfaoedd, gweithwyr neu artistiaid – i rai sy’n canolbwyntio ar eu hil yn unig gan awgrymu mai dyna’r cyfan sydd ganddynt i’w gynnig (er na ddisgwylir yr un peth gan artistiaid gwyn), mae’r Amgueddfa a’r Cyngor wedi bod yn cynnal ideoleg goruchafiaeth wyn.

Mae ein profiadau wedi cronni ar hyd oesau, felly rhaid i strategaethau sy'n mynd i'r afael â nhw hefyd estyn yn ôl ar hyd yr un llinellau. Yn yr ysbryd hwn y lluniwyd y rhestr hon o alwadau am newid systemig, trwy ymgynghori â phobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy'n ystyried eu hunain yn artistiaid, yn weithwyr ac yn gynulleidfaoedd mewn perthynas â sectorau celfyddydol a threftadaeth Cymru.

**Rydym yn galw am y canlynol:**

**Mynediad Cyfartal i Gyfleoedd**

- Ymrwymiad cyllideb am o leiaf pum mlynedd i gynnig grantiau rheolaidd a sylweddol i artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu (gan flaenoriaethu pobl sydd ar yr ymylon am nifer o resymau). Ni fydd mynediad at y grant yn destun amodau na phroses ddethol. **( Tymor canolig)**

- Symud nawdd o fod yn seiliedig ar 'ganlyniadau' (gan gynnwys cynhyrchu gwaith celf, arddangosfeydd cyhoeddus a gweithdai 'cymunedol' tuag at weithgarwch cymunedol neu ddatblygu y mae'r artist yn ei bennu/ei fesur. **( Tymor canolig)**

- Ymrwymiad i neilltuo lleoedd o fewn cyfleoedd nawdd i artistiaid incwm isel, yn enwedig artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu a chanddynt incwm isel, er mwyn sicrhau fod y cyfleoedd hyn yn fwy teg a hygyrch. **( Tymor canolig)**

- Ni ddylai celf a threftadaeth wledig gael eu heithrio o'r safonau ar gyfer cynrychiolaeth a chynwysoldeb. Rhaid i'r egwyddorion hyn gael eu hymestyn i bob agwedd ar Gymru er mwyn sicrhau fod trafodaeth gyfoethog, cynrychiolaeth ac adnoddau ar gael i ymarferwyr croenliw gwledig hefyd.

- Democrateiddio a thryloywder ynghylch dod yn sefydliad Portffolio Celfyddydol Cymru. Ystyr hyn yw creu cyfleoedd cyfartal i sefydliadau bach, sefydliadau dan arweiniad amrywiol, a sefydliadau cymunedol er mwyn iddynt allu derbyn nawdd rheolaidd a chynaliadwy, gyda chefnogaeth ariannol a chefnogaeth wedi'u teilwra er mwyn bodloni gofynion fel llywodraethiant, cyllidebau ac ati. **( Tymor canolig)**

- Blaenoriaethu sefydliadau sy'n dangos perthnasau cynaliadwy a chyfiawn gyda chymunedau amrywiol lleol i dderbyn statws Portffolio Celfyddydol Cymru a chynnal adolygiad difrifol o sefydliadau cyfredol y Portffolio sydd wedi niweidio cymunedau amrywiol (gan ddechrau gydag atal nawdd tan fydd datrysiad). **( Tymor canolig)**

- Rhaid i bob lefel o staff yr Amgueddfa, y Cyngor a sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau (rheolwyr cyllideb, aelodau bwrdd a phanelwyr ceisiadau/cyfweliadau swydd) fod yn amrywiol (h.y. yn cynrychioli profiadau ymylol). Hefyd, rhaid i o leiaf 50% o'r gynrychiolaeth fod rhwng 18 a 35 mlwydd oed yn unol ag ymrwymiadau i roi grym i'r genhedlaeth newydd trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. **( Tymor canolig)**

- Rhagor o gefnogaeth heb feirniadaeth ar gyfer y rheini sy'n anghyfarwydd â'r broses ymgeisio, gan gynnwys sesiynau 1-1 a 'llyfrgell gyhoeddus o geisiadau llwyddiannus Portffolio Celfyddydol Cymru' y gall unigolion ddewis gael eu cynnwys ynddi ac y mae'n rhaid i sefydliadau'r Portffolio gyfrannu ati yn rhan o delerau eu nawdd. **( Tymor canolig)**

- Dylai'r Amgueddfa a'r Cyngor gyflogi 'Rheolwyr Perthynas' er mwyn i ymgeiswyr gael siarad â rhywun cyn treulio cymaint o amser ac egni yn ymgeisio. Dyma fydd unig waith yr aelod o staff, nid yn rhan o swydd arall lle na fydd yn cael y sylw dyledus. **( Tymor canolig)**

- Sefydlu system gyllid a chefnogaeth ar gyfer staff a gwirfoddolwyr lleiafrifol sy'n gweithio yn yr Amgueddfa er mwyn iddynt gael lle a chymorth gyda rhwydweithio, cefnogi ei gilydd a sesiynau datblygu gyrfa. **( Tymor byr)**

- Rhaid cynnig taliad i bobl o gefndiroedd ymylol ar gyfer pob datganiad o ddiddordeb/cais dros 500 gair a chyfweliad lle mae angen paratoi tasgau. Bydd hyn yn gam gweithredu cadarnhaol tuag at sicrhau ymgeiswyr mwy amrywiol. Hefyd, dylai pob cynnig am gyfweliad gynnwys cynnig clir o gyfraniad tuag at gostau gofal plant, amser o'r gwaith ac ati (y gellid cael ato'n ddienw). **( Tymor canolig)**

- Er budd cynaliadwyedd amgylcheddol a throsi grym er budd cymunedau dosbarth gweithiol, dylai adnoddau segur o fewn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru a'r Amgueddfa fod ar gael i artistiaid a chymunedau lleol annibynnol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: offer sain a ffilm, cyfarpar celfyddydol, gofodau sydd ar gael, tŵls ac offer cynhyrchu. Dylid creu system sy'n hygyrch ble gall unrhyw un ffeindio, cadw a dychwelyd offer yn ddidrafferth. Bydd rhannu'r adnoddau hyn yn sicrhau fod ymgysylltiad cymunedol yn cefnogi cymunedau i ddatblygu a chynnal eu gweithgarwch diwylliannol/treftadaeth eu hunain tu hwnt i ofodau'r Amgueddfa. **( Tymor byr)**

- Datblygu system fentora i bobl sy'n cael eu hallgau o gyfleoedd i weithio ym maes y celfyddydau/treftadaeth neu artistiaid. Bydd modd creu proffil syml a gofyn am fentor, cael eu 'paru' â mentor a chael o leiaf tair sesiwn noddedig mewn blwyddyn. Ni ddylai hyn fod yn gyfyngedig i 'raglen' nac yn gyfle untro trwy gais; dylid ei gynnig gydol y flwyddyn. **( Tymor canolig / Tymor hirach)**

- Dylai pob deunydd fod yn hygyrch ar ffurf fersiynau digidol, Hawdd ei Ddeall gyda chynnig i'w cyfieithu i unrhyw iaith, yn ogystal â'r Gymraeg. Nid yw hyn yn gyfyngedig i ddeunyddiau ymgeisio am gyfleoedd yn unig ond hefyd i arddangosfeydd (h.y. creu profiadau hygyrch ar-lein ar gyfer arddangosfeydd/perfformiadau). **( Tymor byr)**

- Cyfeirio cyson a chlir at bob cyfle, digwyddiad/arddangosfa, adnodd a theclyn mynediad (gan gynnwys y rheini a gynigir yn rhan o'r rhestr hon o alwadau) trwy dîm allestyn arbenigol[2] sydd â'r gallu a'r sensitifrwydd i sicrhau eu bod yn hygyrch i gynulleidfaoedd tu hwnt i gyrhaeddiad y Cyngor a'r Amgueddfa. Rhaid iddo fod yn dîm er mwyn sicrhau na fydd un person yn cario baich cyrraedd cymunedau ar ran corff cyfan, a dylai gael yr ymreolaeth i reoli ei ddull o weithio, cyllidebau a dwyn y Cyngor a'r Amgueddfa i gyfrif. **( Tymor byr)**

- Rhaid i holl staff yr Amgueddfa, y Cyngor a sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ymrwymo i nifer benodol o oriau'r wythnos o waith allestyn cymunedol, yn ddieithriad, er mwyn sicrhau fod pobl ym mhob adran a swydd yn ymwybodol ac wedi profi anghenion a dyheadau'r cymunedau maen nhw'n ceisio'u cyrraedd eu hunain. Oherwydd deinameg cymhleth yn ymwneud â hil a dosbarth y gwaith hwn, mae WAARU yn eich cynghori i gael hyfforddiant gan sefydliadau ac unigolion sefydledig sydd eisoes yn gweithio fel hyn. Byddwn yn hapus i wneud argymhellion ar gais. **( Tymor canolig)**

## Atebolrwydd

- Sefydlu 'cynulliad pontio' taledig i gefnogi'r Cyngor a'r Amgueddfa i roi ein galwadau ar waith, i gynnwys grŵp o bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy'n artistiaid ac yn weithwyr celf sydd wedi ymroi i wrth-hiliaeth croestoriadol. **( Tymor byr)**

- Bydd y cynulliad pontio yn cael ei dalu i arolygu cyfnod pontio a ddefnyddir gan yr Amgueddfa a'r Cyngor i ymroi i bennu'r camau ymarferol angenrheidiol er mwyn gwireddu'r galwadau canlynol, a bod yn gymorth i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt

[2] Mae 'allestyn' yn wahanol i farchnata. Mae allestyn yn canolbwyntio ar feithrin a chynnal perthynasau felly mae angen arbenigedd gwahanol, mwy penodol.

yn Ddu o fewn yr Amgueddfa a’r Cyngor fydd yn cynnal/arwain y gwaith hwn yn fewnol (e.e. Asiant/Asiantau er Newid, timau Ymgysylltu).

- Bydd WAARU yn gweithio’n agos â chyfranwyr ail gam ein tendr i ddatblygu’r cynulliad i fod yn grŵp cynrychioladol, fel rhan o ymrwymiad i gynnal y berthynas ymgynghori a dilyn i fyny gyda chyngor arbenigol wedi’r broses dendro hon.

- Bydd y cynulliad yn cydweithio i bennu canlyniadau y dylid gweithio tuag atynt a bydd aelodaeth yn cael ei chyfyngu i gyfnod penodol er mwyn osgoi hunanfodlonrwydd a sicrhau y caiff y gynrychiolaeth ehangaf posibl leisio’u barn. Bydd aelodaeth gyffredinol yn agored i holl bobl groenliw Cymru sydd â diddordeb mewn cymryd rhan a bydd pob adroddiad cynnydd yn cael ei rannu â’r aelodaeth ehangach.

- Bydd y cynulliad ar wahân i’r Amgueddfa a’r Cyngor a bydd y berthynas rhwng y sefydliadau a’r cynulliad gyfystyr â grŵp ymgynghori.

- Rhaid i bob aelod o staff y Cyngor, sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru a safleoedd yr Amgueddfa gael yr hawl i gysylltu ag ymddiriedolwyr er mwyn codi materion yn uniongyrchol â nhw, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt am realiti eu profiadau o fewn y sefydliad. Dylid cynnwys manylion cyswllt ymddiriedolwyr mewn llawlyfrau staff. **( Tymor byr)**

- Os fydd aelod o staff o gymuned ymylol yn teimlo’r angen i adael ei le gwaith oherwydd gwahaniaethu, bydd yn derbyn ei gyflog llawn am y cyfnod a nodir yn ei gontract. Ei weithle blaenorol sydd yn gyfrifol am aildrefnu’r gyllideb er mwyn bodloni’r cais hwn yn ogystal â chyflogi aelod arall o staff i wneud y gwaith. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Wrth weithio gydag artist neu weithiwr celf neu wrth gomisiynu gwaith ganddynt, rhaid i’r Amgueddfa, y Cyngor neu sefydliad Portffolio Celfyddydol Cymru lynu at unrhyw ddarpariaethau hygyrchedd – yn ogystal â darpariaethau trafnidiaeth – a bennwyd gan y rheini y maent yn gweithio â nhw, er enghraifft mewn perthynas ag anabledd. Nid oes disgwyl i’r artist gychwyn unrhyw waith oni bai ei fod yn hyderus y bodlonwyd ei anghenion. Os fydd artist anabl yn teimlo yn ystod project nad yw ei anghenion yn cael eu bodloni’n ddigonol, mae ganddynt hawl i stopio gweithio a chadw’r ffi gyflawn. Rhaid i’r sefydliad dalu’r ffi, heb unrhyw ddisgwyliadau pellach, a chymryd cyfrifoldeb llawn am hyn. **( Tymor byr)**

- Hefyd, datblygu rhwydwaith gefnogaeth annibynnol ar gyfer pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu sy’n gweithio yn y celfyddydau er mwyn i weithiwr celf allu cysylltu â

noddwr allweddol y sefydliad yn breifat ac yn gyfrinachol am unrhyw gwynion sydd ganddynt am eu cyflogwr. Nid yw gweithdrefnau cwyno mewnol yn ddigonol ac yn aml maent yn rhagfarnllyd am fod disgwyl i weithiwr godi pryderon am ei le gwaith, yn ei le gwaith. Fel amod o dderbyn nawdd, bydd unrhyw gŵyn a godir fel hyn yn dechrau ar broses gyfiawnder weddnewidiol, lle bydd yr unigolyn a gododd y gŵyn yn pennu'r amodau cymodi. Rhaid bodloni'r amodau hyn cyn i'r sefydliad gael ymgeisio am nawdd neu ei ennill eto. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Gan ddefnyddio'r un rhwydwaith gefnogaeth annibynnol, caiff cymunedau dynnu sylw at weithgarwch a noddir a all, yn eu barn nhw, fod yn niweidiol neu yn allgau. Bydd y project a'r gyllideb gysylltiedig yn cael eu rhewi ar unwaith. Bydd y gŵyn yn cael ei derbyn yn uniongyrchol yna bydd y rhwydwaith yn gweithio gyda'r cymunedau i bennu'r newidiadau angenrheidiol er mwyn i'r nawdd gael ei ailsefydlu. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Yr Amgueddfa a'r Cyngor i osod cynsail i bob corff celfyddydol a threftadaeth arall trwy wahodd hwylusydd allanol i siarad â phob aelod o staff sy'n cael ei wthio i'r ymylon, er mwyn pennu a yw eu cyflogau yn adlewyrchu gwerth am arian a llafur. Adolygu codiadau cyflog yn unol â hyn ar unwaith. Gwirfoddolwyr di-dâl i fod yn rhan o'r broses hon, gyda goblygiadau i gyflogaeth â thâl. **( Tymor byr)**

- Rhaid i bob polisi gan yr Amgueddfa neu'r Cyngor sy'n ymwneud â chydraddoldeb, neu a gyflwynir gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, gynnwys cofnod o'r holl adegau y cafodd y polisi ei weithredu yn fewnol a chanlyniadau'r broses gefnogi. Rhaid i'r cofnodion hyn fod ar gael yn gyhoeddus.

- Cyflwyno adran benodol ar Ficroymosodiadau ym mhob llawlyfr staff a pholisi Cydraddoldeb er mwyn i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu gael cyflwyno cwynion.

- Nid yr Amgueddfa a'r Cyngor yn unig ddylai fod â gofal cyllidebau mawr a/neu ddyrannu nawdd. Dylid datganoli'r broses hon i unigolion a sefydliadau eraill er mwyn cynyddu tryloywder. Yn yr un modd, dylai cyrff llai fod dan gontract gan yr Amgueddfa i gynnal a chefnogi gwaith curadurol a datblygu cynulleidfaoedd. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Cronfa cyfiawnder gweddnewidiol a gofal ar gael i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu, pobl anabl a niwrowahanol, pobl traws a cwiyr, pobl ar incwm isel a phobl sydd â statws ffoadur/ceisiwr lloches sy'n gweithio fel artist neu weithwyr celf llawrydd sydd wedi

cael eu niweidio neu wedi cael profiadau trawmatig gyda'r Amgueddfa a'r Cyngor a'u cyrff noddedig. **( Tymor byr / Tymor canolig)**

- Rhaid cynnal arolwg cyllideb chwe-misol o gyrff Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n derbyn y mwyaf o nawdd a hynny gan bobl allanol sy'n cynrychioli trawstoriad o wahanol gymunedau amrywiol. Bydd y meini prawf yn cynnwys budd *go iawn* i gymunedau/cynulleidfaoedd, achosion posibl a/neu achosion o niwed, a bylchau cyflog anghyfiawn rhwng y gweithwyr ar y cyflog uchaf ac isaf. Bydd yr arolygwyr yn gweithio gydag ymgynghorydd proffesiynol allanol, diduedd i bennu cyllideb newydd/gosod cap cyllideb. **( Tymor byr / Tymor canolig)**

- Atal nawdd sefydliadau (gan gynnwys yr Amgueddfa a'r Cyngor) sydd â bwlch cyflog anghyfiawn rhwng y gweithwyr ar y cyflogau uchaf ac isaf ar unwaith tan fod dulliau gweithio tecach a mwy llorweddol ar waith. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Cyfnod enwebu chwe-misol ar gyfer sefydliadau newydd Portffolio Celfyddydol Cymru / nawdd parhaus ar gyfer sefydliadau bach, sefydliadau dan arweiniad amrywiol a sefydliadau cymunedol sydd â record a/neu botensial clir i fod o fudd i gymunedau amrywiol. Dylai'r broses enwebu fod mor syml â phosibl a dylid caniatau hunan-enwebu. Yn ddelfrydol, bydd y Cyngor yn gwahodd sefydliadau yn uniongyrchol. **( Tymor byr / Tymor canolig)**

## Cynrychiolaeth

- Recriwtio o leiaf tri aelod du i Fyrddau'r Amgueddfa a'r Cyngor – rhaid glynu wrth y cwota hwn ar bob adeg o hyn allan. Dylid talu'r aelodau hyn, yn yr un modd ag y telir pob aelod sy'n rhannu profiadau gwerthfawr o gymunedau ymylol. **(Tymor byr)**

- Rhoi rhaglen gweithwyr dan hyfforddiant ar waith ar gyfer pob swydd (yn enwedig swyddi lefel uchel) yn yr Amgueddfa a'r Cyngor. Dylid cynnig cymhorthdal a dylent fod yn hygyrch. Bydd hyn yn sicrhau gweithlu cymwys i lenwi'r swyddi perthnasol o fewn y sefydliadau hyn – o gyllid i reoli, curadu a chyfarwyddo. Dylid cynnal cyfres o weithdai tymor byr ochr yn ochr â hyn. **( Tymor canolig / Tymor hirach)**

- Rhaid dyrannu nawdd penodol i hyfforddi dehonglwyr, capsiynwyr, disgrifwyr sain a chyfieithwyr BSL Du a chroenliw nad ydynt yn Ddu fel mater o frys. Rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal ond hefyd er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd mynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol mae pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu yn eu hwynebu wrth fynychu digwyddiadau **( Tymor byr / Tymor canolig)**

- Os fydd yr Amgueddfa neu'r Cyngor yn gweithio gyda chymuned ymylol ar broject, neu os fydd corff Portffolio Celfyddydol Cymru yn derbyn nawdd i weithio gyda chymunedau ymylol, rhaid i o leiaf un o'r swyddi cyflogedig fynd i rywun o'r gymuned a dylai'r swydd hon gael y grym a'r gefnogaeth angenrheidiol. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Dylai artistiaid a gweithwyr celf ymylol dderbyn cymorth i ddysgu ieithoedd eraill, yn ogystal â'r Gymraeg. Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn angenrheidiol am fod polisïau iaith Gymraeg ceisiadau cyfredol yn gallu allgau pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu. Hefyd, gall cyfathrebu mewn nifer o ieithoedd (i adlewyrchu gwahanol gymunedau Cymru) alluogi pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu i ymgysylltu yn ehangach â gwahanol gynulleidfaoedd. ( **Tymor byr / Tymor canolig)**

- Ymrwymiad i sicrhau fod neilltuo llefydd yn orfodol ar gyfer artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu, artistiaid anabl, traws a cwiyr ac artistiaid ar incwm isel neu â statws ffoadur/ceiswr lloches ar gyfer cyfleoedd Portffolio Celfyddydol Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a chyfleoedd partner rhyngwladol (h.y. gyda British Council) fel cam positif tuag at well cynrychiolaeth. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Mwy o eglurdeb cyhoeddus ynghylch prosesau caffael celf Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan sicrhau fod unrhyw broses ddethol yn cynnwys panel cynrychioladol. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Mwy o eglurdeb cyhoeddus ynghylch ceisiadau mawr gan gynnwys Cymru yn Fenis, allestyn â sefydliadau artistiaid a churaduron amrywiol a chymunedol gyda gwybodaeth a chymorth am ofynion ymgeisio ac ysgrifennu ceisiadau ymlaen llaw. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Ymrwymiad i greu arddangosfeydd parhaus gan gynnwys orielau mawr ar draws 7 safle'r Amgueddfa sy'n berthnasol ac yn cysylltu â threftadaeth cymunedau croenliw Cymru a thu hwnt. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Casgliad ac archif gyfan yr Amgueddfa i gael ei ddigideiddio a'i ryddhau at ddefnydd cyhoeddus dan bolisïau mynediad agored e.e. Creative Commons Zero. Rhaid bod yn glir am sut mae defnyddio'r system, sut i wneud cais i ddefnyddio adnoddau / gweithio gyda gwrthrychau a sicrhau fod yr archif yn fwy gweladwy. **( Tymor canolig / Tymor hir)**

- Mynediad corfforol at archifau'r Amgueddfa trwy system archebu lle hawdd ei ddefnyddio, gyda staff ar gael i ddarparu gwybodaeth am yr archif, y strwythur a'r cynnwys. (**Tymor byr / Tymor canolig)**

- Gall grwpiau cymuned ac ysgolion ofyn am gael gweld gwrthrych o archifau'r Amgueddfa mewn lleoliad perthnasol o'u dewis nhw h.y. mynd â'r gwrthrych atyn nhw. Dylai hyn fod yn rhan o broses ehangach lle bydd gan grwpiau cymunedol, ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill gefnogaeth yr Amgueddfa a chyswllt â phrif guraduron a chyfarwyddwyr. **(Tymor canolig)**

## Ymrwymiadau ac Ymddiried

- Mae WAARU yn galw am ohirio'r ymgyrch Asiant er Newid ar unwaith, a chynnal adolygiad am sut y gellid ail-lunio'r rôl fel tîm o bobl gynrychioladol â chymorth gyda lefel briodol o ymreolaeth gan y Cyngor. Yr argymhelliad gan WAARU a nifer o gyfarfodydd cysylltiedig â BLM a gynhaliwyd gan y Cyngor gydag artistiaid Du ac artistiaid croenliw nad ydynt yn Ddu oedd nad gwaith/baich un person yn unig yw'r Asiant er Newid – anwybyddwyd yr argymhelliad hwn. Dyma bryder sylweddol a brys ac os yw'r Cyngor am geisio meithrin ymddiriedaeth fel corff cyhoeddus rhaid iddynt ymateb. **( Ar unwaith)**

- Adroddiad ar draws y sector o arferion cyflogi sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a noddir gan yr Amgueddfa a'r Cyngor, gyda goblygiadau i sefydliadau nad yw'r gweithlu yn adlewyrchu'r cymunedau o'u cwmpas mewn perthynas ag amrywiaeth hil ac ethnigrwydd. Wrth asesu'r sefydliadau hyn, rhaid nodi'n glir fod cyflogi pobl o gefndiroedd ymylol i wneud gwaith amrywiaeth a chynwysoldeb yn unig yn annerbyniol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rolau Asiant er Newid. **(Tymor canolig / Tymor hir)**

- Yn seiliedig ar dystiolaeth yr adroddiad hwn, cyhoeddi canllawiau cyflogadwyedd a thrywydd gyrfa sy'n sicrhau fod cyflogwyr yn atebol am fynediad pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu at gyfleoedd datblygu swyddi. **( Tymor byr / Tymor canolig)**

- Rhaid i gwmnïau a sefydliadau sy'n honni eu bod yn ymgysylltu â grŵp ymylol penodol fod ag aelodau'r grŵp hwnnw yn y gweithlu a'r bwrdd. **( Tymor byr)**

- Pennu cwotâu amrywiaeth ar gyfer staff ar bob lefel o'r Amgueddfa a'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y gweithlu yn adlewyrchu pob cymuned ymylol y maent yn ceisio'u cyrraedd trwy eu gweithgarwch a noddwyd. **( Tymor canolig)**

- Datganiad yn disgrifio'r camau a gymerwyd gan yr Amgueddfa a'r Cyngor i wireddu'r cynlluniau a nodwyd yn eu datganiadau BLM yn ystod haf 2020, gydag adran yn trafod dulliau gweithredu a diffyg gweithredu yn ogystal â chynllun manwl yn disgrifio gwaith pellach yn y maes hwn. **( Tymor byr)**

- Creu cynllun tebyg ar gyfer galwadau WAARU, gydag adolygiad o lwyddiannau a methiannau o fewn 6 mis **( Tymor byr)**

- O hyn allan, rhaid i bob ymrwymiad mewn datganiad fod yn benodol a chynnwys amserlen, yn hytrach na bod yn amhenodol ac yn eang e.e. 'rydym yn ymroi i noddi [nifer] o artistiaid croenliw erbyn [dyddiad] a byddwn yn adolygu hyn ar [dyddiad]'. **( Ar unwaith)**

- Cyhoeddi a sicrhau mynediad rhwydd at gyflogau holl staff yr Amgueddfa a'r Cyngor o'r cyfarwyddwyr i'r interniaid, gan gynnwys staff contract (h.y. staff glanhau, diogelwch ac ati) **( Tymor byr)**

- Rhaid i bob aelod o staff ymgysylltu anghynrychioladol mewn swyddi arwain neu reoli project ddatgan pa profiad bywyd sydd ganddynt sy'n berthnasol i'w gwaith. Rhaid dilyn hynt pob cwyn yn erbyn yr unigolion hyn yn drwyadl er mwyn sicrhau y diogelir y cymunedau perthnasol a dylai staff anghymwys gael eu hadolygu. **( Tymor byr)**

- Tryloywder noddi. Bydd hyn yn cael ei hwyluso gan wefan sy'n dogfennu'r nawdd a ddyrannwyd eisoes ac eithrio grantiau bach o dan £500. Rhaid i'r platfform gynnwys enw'r person/sefydliad a dderbyniodd nawdd, faint o nawdd a roddwyd ac unrhyw nawdd a ddyranwyd iddynt eisoes. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder; dyrannu nawdd i ystod

amrywiol o artistiaid a chyrff a bod noddwyr yn ymwybodol o ble mae angen nawdd ychwanegol / dargyfeirio nawdd. Gweler ‘The White Pube’ am enghreifftiau. **(Tymor byr)**

- Pan fydd corff anghynrychioladol yn ennill nawdd ar gyfer project sy’n honni gweithio gyda chymuned / cynulleidfa benodol, rhaid dilysu’r honiadau hyn. Er enghraifft, rhaid dilysu honiadau am hygyrchedd i bobl anabl a wneir gan sefydliad heb arweiniad anabl mewn cais am grant, er mwyn sicrhau y gwireddwyd yr addewidion ar ddiwedd nawdd y project. Rhaid cosbi lle nad yw’r honiadau hyn wedi eu gwireddu, gan gynnwys terfynu neu adennill nawdd. **(Tymor byr / Tymor canolig)**

- Pob aelod o staff gan gynnwys aelodau bwrdd a chyfarwyddwyr i fynychu hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod tymor hir ar unwaith. *Nid* hyfforddiant gwrth-hiliaeth yw hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ac ni fydd yn cyfrannu at unrhyw newid strwythurol nac yn trwsio system dreisgar. Hyfforddiant ymarferol yw hwn er mwyn atal niwed uniongyrchol i bobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu. **(Tymor canolig)**

- Adolygiad o holl waith comisiwn a phrojectau blaenorol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a British Council yn enwedig y rheini sy’n ymdrin â phartneriaid a chymunedau croenliw. Dylai’r adolygiad hwn ganolbwyntio ar hanes a gweithrediadau problematig y projectau hyn sy’n cynnal hanes gwladychol a chanlyniadau sarhaus, amharchus a hiliol. Dylai’r Cyngor ddyrannu nawdd sylweddol i broject newydd i bennu dull newydd ar gyfer gwaith rhyngwladol a chefnogaeth sy’n blaenoriaethu’r rheini sydd wedi’u gwthio i’r ymylon fwyaf, gan gychwyn ar adolygiad ar unwaith a chynllunio ar gyfer proses werthuso. **(Tymor canolig)**

- Mynediad tryloyw a chyhoeddus ynghylch amrywiaeth casgliad yr Amgueddfa gyda thrafodaethau fforwm agored gan hwyluswyr allanol am agweddau creiddiol ar brosesau caffael a chasglu'r Amgueddfa, archif, cyflwyno, arddangosfeydd ac arddangosiadau parhaus a thros dro. Rhaid i’r trafodaethau hyn gael effaith go iawn ar bolisi a gweithgarwch trwy broses werthuso. **(Tymor canolig)**

- Ymchwilio i bob gwrthrych yng nghasgliad yr Amgueddfa (gwaith a hwylusir gan dîm a rhaid cyhoeddi diweddariadau) gan roi ystyriaeth i’r hanesion perthnasol a guddiwyd. Cyhoeddi’r holl fanylion yng nghasgliad digidol yr Amgueddfa gan gynnwys tarddiad y gwrthrych a dull ei gaffael. Os cafodd ei roi, er enghraifft, rhaid cynnwys nodyn am unrhyw gysylltiadau â chaethwasiaeth. **(Tymor canolig / Tymor hir)**